



Asiantaeth
Safonau
Bwyd

food.gov.uk

Food
Standards
Agency

Adroddiad ar y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Cyngor Sir Powys
25-29 Tachwedd 2013

Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder defnyddwyr o ran bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, bwyd a fewnforiwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r swyddogaethau rheoleiddio hyn sydd gan awdurdodau lleol yn cael eu cyflawni'n bennaf trwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn edrych ar wasanaeth gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyriaeth o'r systemau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer ymyriadau mewn busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid, samplu bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodi, a hybu diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Dylid cydnabod y gallai fod cryn amrywiaeth yn y ffordd a'r modd y mae awdurdodau'n darparu eu gwasanaethau gorfodi bwyd, gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r Asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn erbyn y Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid "Y Safon", a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd gan Awdurdodau Lleol (diwygiwyd ym mis Ebrill 2010), ac mae ar gael ar wefan yr Asiantaeth yn:

www.food.gov.uk/enforcement/enforcementwork/frameagree

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder y cyhoedd drwy sicrhau bod awdurdodau'n darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi cyfle i amlygu a lledaenu arfer da, ac mae'n darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd, safonau a bwyd anifeiliaid, ac mae ar gael yn:

www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft am nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd o safleoedd bwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data am weithgarwch gorfodi ar gyfer pob awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig, ac mae ar gael yn: www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

I'ch helpu, mae rhestr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio hwn ar gael yn Atodiad C.

	CYNNWYS	Tudalen
1	Cyflwyniad	5
	Y Rheswm dros yr Archwiliad	5
	Cwmpas yr Archwiliad	5
	Cefndir	6
2	Crynodeb Gweithredol	9
	Canfyddiadau'r Archwiliad	
3	Trefniadaeth a Rheolaeth	12
4	Adolygu a Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau Cofnodedig	17
5	Swyddogion Awdurdodedig	19
6	Cyfleusterau ac Offer	22
7	Ymyriadau ac Arolygiadau Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	24
8	Cwynion am Fwyd, Bwyd Anifeiliaid a Sefydliadau Bwyd	36
9	Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref	38
10	Cyngor i Fusnesau	39
11	Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	41
12	Arolygu a Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	43
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd	46
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	47
15	Gorfodi	49
16	Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu	53
17	Cwynion am y Gwasanaeth	56
18	Cyswllt â Sefydliadau Eraill	57
19	Monitro Mewnol	58
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid	60
21	Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	61
	Atodiadau	
A	Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Powys	63
B	Dull/Methodoleg yr Archwiliad	

C Rhestr Termau

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau archwiliad o hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghyngor Sir Powys o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae ar gael i'r cyhoedd ei weld ar wefan yr Asiantaeth yn www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports

Y Rheswm dros yr Archwiliad

- 1.2 Rhoddwyd y grym i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o'r gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghyngor Sir Powys o dan adran 12(4) y Ddeddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.
- 1.3 Mae Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau bod cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i ddilysu, yn cynnwys gofyniad i awdurdodau cymwys gynnal archwiliadau mewnol neu i drefnu bod archwiliadau allanol yn cael eu cynnal. Diben yr archwiliadau hyn yw dilysu pa un a yw rheolaethau swyddogol sy'n ymwneud â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni'r gofyniad hwn, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sef yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig, wedi sefydlu trefniadau archwilio allanol. Wrth ddatblygu'r rhain, mae'r Asiantaeth wedi ystyried arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd ar sut y dylai archwiliadau o'r fath gael eu cynnal.¹
- 1.4 Cynhaliwyd archwiliad o'r awdurdod fel rhan o raglen tair blynedd (2013 – 2016) o archwiliadau llawn o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

¹ Penderfyniad y Comisiwn ar 29 Medi 2006 sy'n amlinellu'r canllawiau sy'n gosod meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o reolaethau swyddogol i ddilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid (2006/677/EC).

Cwmpas yr Archwiliad

- 1.5 Roedd yr archwiliad yn ymdrin â threfniadau Powys ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Cynhaliwyd yr elfen 'ar y safle' o'r archwiliad yn swyddfeydd yr awdurdod yn y Trallwng rhwng 25 a 29 Tachwedd 2013, ac roedd yn cynnwys ymweliadau dilysu â busnesau bwyd a sefydliad bwyd anifeiliaid i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol a weithredir gan yr awdurdod ac, yn benodol, y gwiriadau a gynhelir gan swyddogion yr awdurdod, i ddilysu cydymffurfiaeth gweithredwr busnes bwyd a bwyd anifeiliaid â gofynion deddfwriaethol.
- 1.6 Roedd yr archwiliad hefyd yn rhoi cyfle i drafod gyda swyddogion sy'n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, gyda'r nod o archwilio materion allweddol a chael safbwyntiau i lywio polisi'r Asiantaeth.
- 1.7 Roedd yr archwiliad yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod â'r "Safon". Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000 (ac fe'i diwygiwyd am y pumed tro ym mis Ebrill 2010), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr Asiantaeth yn www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree

Cefndir

- 1.8 Awdurdod unedol yw Cyngor Sir Powys sy'n cynnwys ardal o 5,179 cilomedr sgwâr, sef y sir fwyaf yng Nghymru. I'r gogledd, mae ganddi ffiniau â Gwynedd, Sir Ddinbych a Wrecsam; Ceredigion a Sir Gaerfyrddin i'r gorllewin; Swydd Amwythig a Swydd Henffordd i'r dwyrain, a Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chastell-nedd Port Talbot i'r de.
- 1.9 Mae Powys yn sir hynod wledig gyda chyfran uchel o'r tir o ansawdd amaethyddol gwael. Heblaw dyffrynnoedd afon llydan afonydd Hafren, Gwy ac Wysg a'u llednentydd, mae Powys yn ardal o weundiroedd a mynyddoedd ucheldirol, sy'n addas iawn ar gyfer anifeiliaid pori, anturiaethau awyr agored a choedwigaeth. Mae tua 16% o dir Powys yn rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gan fod y posibilrwydd o

fathau eraill o ddatblygu economaidd yn gyfyngedig, mae'r nodweddion hyn yn cynnig tirwedd o ansawdd uchel sy'n ddeniadol i dwristiaid a phobl sy'n ymweld am y dydd, cymaint am ei natur bellennig a'i harddwch naturiol garw ac am ei threfi marchnad a phentrefi gwledig nodedig.

- 1.10 Mae 132,976 o bobl yn byw ym Mhowys, y mwyafrif ohonynt mewn pentrefi a threfi bach. Y trefi mwyaf yw'r Drenwydd, Ystradgynlais, Aberhonddu a'r Trallwng. Powys sydd â'r ganran uchaf o'i phoblogaeth (28%) yn byw mewn pentrefi bach gwledig ac anheddau ynysig o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.
- 1.11 Mae gan Bowys lefelau isel o ddifreintedd. Fodd bynnag, mae un ardal, Ystradgynlais 1, ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011. Mae rhyw 98% o boblogaeth Powys yn wyn ac mae ychydig o dan draean o'r trigolion yn siarad Cymraeg.
- 1.12 Yn Neuadd y Sir, Llandrindod, y mae pencadlys gweinyddol yr awdurdod. Gwasanaethau lechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach yr awdurdod sy'n gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid ac, hyd at Ebrill 2013, cawsant eu rheoli gan Reolwr Diogelu'r Cyhoedd.
- 1.13 Yn sgil strwythuro corfforaethol, cafodd swydd Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd ei dileu o 1 Mai 2013 ymlaen. Yn y strwythur newydd, roedd y gwasanaethau'n adrodd i'r Uwch Reolwr (Gwasanaethau Rheoleiddio). Adeg cynnal yr archwiliad hwn, roedd y swydd hon yn wag a'r Pennaeth Adfywio, Eiddo a Chomisiynu, a oedd yn adrodd i Gyfarwyddwr Strategol y Gyfarwyddiaeth 'Lle' newydd, oedd yn goruchwyllo'r gwasanaeth. Roedd y Cyfarwyddwr Strategol yn rhan o Dîm Rheoli Corfforaethol yr awdurdod.
- 1.14 Roedd y staff Safonau Masnach, sy'n gyfrifol am orfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, yn gweithio o swyddfeydd yn Llandrindod, Aberhonddu a'r Drenwydd. Roedd staff lechyd yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am orfodi hylendid bwyd yn gweithio o swyddfeydd yn Llandrindod, Aberhonddu a'r Trallwng. Roedd yr awdurdod wedi datblygu Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2013/14 i lechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, a gymeradwywyd gan y deiliaid portffolio perthnasol ym mis Hydref 2013.

- 1.15 Cynhelir nifer o ddigwyddiadau tymhorol mawr ym Mhowys sy'n effeithio ar y gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, a gynhelir yn flynyddol yn Llanelwedd, Gŵyl Jas Aberhonddu a Gŵyl Lenyddol y Gelli.
- 1.16 Oherwydd ei natur wledig, roedd yr awdurdod wedi cael problemau'n ymwneud â lladd anifeiliaid a chyflenwi cig yn anghyfreithlon. Mae cryn dipyn o amser swyddogion wedi'i dreulio'n ymchwilio i'r gweithgareddau hyn. Mae swyddogion wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu ac Uned Twyll Bwyd Cymru yn gysylltiedig â'r materion hyn.
- 1.17 Yn ei Gynllun Gwasanaeth, dywedodd yr awdurdod fod ganddo drefniadau ar waith ar gyfer cysylltu â swyddogion awdurdodedig y tu allan i oriau swyddfa i ddelio ag argyfyngau. Ni phrofwyd y gwasanaeth ewyllys da hwn yn rhan o'r archwiliad.
- 1.18 Yn 2013/14, yn ôl y Cynllun Gwasanaeth, roedd 2,943 o sefydliadau bwyd (2,289 ohonynt wedi cofrestru gyda'r awdurdod) a 583 o sefydliadau bwyd anifeiliaid cofrestredig ym Mhowys. Yn ogystal, adroddwyd bod tua 6,000 o sefydliadau a allai fod yn destun rheolaethau hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, yn amrywio o ffermydd da byw ac â'r mawr i gynhyrchwyr ffrwythau a llysiau ar raddfa fach. Cymeradwywyd pedwar ar ddeg o safleoedd bwyd o dan ddeddfwriaeth benodol i gynnyrch ac roedd pedwar safle potelu dŵr yn yr awdurdod.
- 1.19 Roedd Cynllun Gwasanaeth 2013/14 yn datgan bod gan yr awdurdod tua 8.4 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn (CALI) a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaeth hylendid bwyd. O ran safonau bwyd, dywedodd yr awdurdod bod ganddo tua 3.4 swyddog CALI a thua 0.1 swyddog CALI ar gyfer bwyd anifeiliaid.
- 1.20 Amlinellwyd y gwariant net ar hylendid bwyd (£449,940), rheoli clefydau heintus (£55,470) a safonau bwyd (£141,260) yn y Cynllun Gwasanaeth. Ni ddarparwyd y gwariant ar orfodi cyfraith bwyd anifeiliaid.
- 1.21 Roedd yr awdurdod wedi bod yn cymryd rhan yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol a lansiwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2010. Ar adeg yr archwiliad, roedd sgoriau hylendid bwyd 1,677 o sefydliadau bwyd ym Mhowys ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol.

2 Crynodeb Gweithredol

- 2.1 Cafodd trefniadau rheoli Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd ei ailstrwythuro yn 2013 a chollwyd swydd Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd. Roedd y Pennaeth Adfywio, Eiddo a Chomisiynu yn goruchwyllo'r gwasanaethau cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid tra'n aros am benodi'r Uwch Reolwr (Gwasanaethau Rheoleiddio).
- 2.2 Cafodd y gwaith o gyflwyno rheolaethau swyddogol hylendid bwyd ei reoli gan Arweinydd Proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd (Masnachol) a dau Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a oedd yn rhannu cyfrifoldebau rheoli am y swyddfeydd yng ngogledd ac yn ne'r awdurdod. Cadarnhaodd yr archwiliad fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â gofynion y Cytundeb Fframwaith a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd i raddau helaeth. Amlygwyd nifer o feysydd o gryfder.
- 2.3 Y Rheolwr Safonau Masnach oedd yn gyfrifol am reolaethau swyddogol safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. At ei gilydd, roedd gwaith adweithiol yn cael ei gynnal yn unol â gofynion y Codau Ymarfer ond nid oedd ymyriadau wedi'u cynllunio yn cyrraedd y gofynion.
- 2.4 Cyn yr archwiliad, roedd yr awdurdod wedi colli swm sylweddol o ddata yn ymwneud â sgoriau risg safonau bwyd sefydliadau tra'n symud data i gynllun sgoriau risg newydd. Roedd swyddogion wrthi'n gweithio i ddatrys y broblem.
- 2.5 Nododd archwilwyr y nifer fawr o sefydliadau bwyd anifeiliaid yn ardal yr awdurdod, sy'n bennaf wledig. Nid oedd dyraniad y staff i ddarparu'r gwasanaeth bwyd anifeiliaid yn agos ddigon at nifer y staff y byddai eu hangen i ddarparu'r holl reolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol a oedd yn ofynnol. Adeg yr archwiliad, nid oedd ymrwymiad clir i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ymyriadau bwyd anifeiliaid. Roedd archwilwyr yn gwybod bod gwaith yn mynd rhagddo ar lefel ranbarthol i ddatblygu gwasanaethu gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yng Nghymru, ond nid oedd yr awdurdod wedi amlinellu sut y byddai'r gwelliannau hyn yn cael eu darparu'n lleol.

2.6 Cryfderau'r Awdurdod

Cwynion am Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Roedd yr awdurdod wedi cynnal ymchwiliadau amserol a thrylwyr mewn ymateb i gwynion am safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan sicrhau bod yr achwynwyr wedi cael gwybod am ganlyniad ymchwiliadau.

Cyngor i Fusnesau

Roedd hi'n glir bod rhoi cyngor defnyddiol i fusnesau i'w cynorthwyo i gydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn bwysig i'r awdurdod. Darparwyd cyngor targedig, penodol i'w hanghenion, i warchodwyr plant a chigyddion, a darparwyd sesiynau galw heibio ar draws ardal yr awdurdod i godi ymwybyddiaeth busnesau o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Roedd gwybodaeth gynhwysfawr ar hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid ar gael i fusnesau ar wefan yr awdurdod.

Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

Roedd yr awdurdod yn gallu dangos ei fod wedi ymateb yn briodol i hysbysiadau am achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd a'i fod wedi cynnal cofnodion manwl o'i weithredoedd.

Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

Roedd yr awdurdod yn gallu dangos ei fod wedi gweithredu ei Weithdrefn Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd gofnodedig. Roedd trefniadau cyswllt effeithiol ar waith rhwng swyddogion safonau bwyd a hylendid bwyd i gynnig ymateb. Roedd yr Asiantaeth wedi cael gwybod am ddigwyddiadau lleol â goblygiadau ehangach i ddiogelwch bwyd.

Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygiadau Hylendid Bwyd

Roedd cofnodion cynhwysfawr o ymyriadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ac roedd y rhain yn hawdd eu hadalw.

Cyswllt â Sefydliadau Eraill

Roedd yr awdurdod yn gallu dangos bod ganddo drefniadau cyswllt effeithiol ar waith gyda sefydliadau eraill ynghylch materion bwyd a bwyd anifeiliaid. Bu'r gwasanaeth hylendid bwyd yn rhan o waith datblygu

hyfforddiant cysondeb i swyddogion awdurdodau lleol ar draws Cymru ar ddefnyddio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, a darparu'r hyfforddiant hwn yn effeithiol.

Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd

Roedd yr awdurdod wedi cynnal nifer o fentrau gyda'r nod o hybu safonau a diogelwch bwyd.

2.7 Meysydd Allweddol i'w Gwella ar gyfer yr Awdurdod

Awdurdodi swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid

Nid oedd y meini prawf ar gyfer pennu cymwyseddau swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid cyn eu hawdurdodi, a'r trefniadau ar gyfer awdurdodi swyddogion newydd neu swyddogion a oedd yn dychwelyd i'r gwaith, wedi'u cofnodi. At hynny, roedd yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid yn annigonol.

Arolygiadau ac Ymyriadau Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Nid oedd yr awdurdod yn cynnal ymyriadau safonau bwyd neu fwyd anifeiliaid ar yr amllder sy'n ofynnol yn y Codau Ymarfer. Mae cynnal ymyriadau ar yr amllder sy'n ofynnol yn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu hamlygu a'u dilyn i fyny. Lle'r oedd cofnodion arolygu safonau bwyd a bwyd anifeiliaid ar gael, nid oedd y rhain yn ddigon manwl i sefydlu a gynhaliwyd ymyriadau effeithiol nac i lywio dull graddoledig o orfodi. Nid oedd nifer sylweddol o sefydliadau bwyd anifeiliaid wedi bod yn destun ymyrraeth.

Adroddiadau Arolygu Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Nid oedd cofnodion yn ymwneud ag arolygiadau bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal yn gyson gan yr awdurdod am y cyfnod sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. At hynny, nid oedd adroddiadau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid a ddarparwyd i weithredwyr busnesau bwyd/bwyd anifeiliaid yn dilyn arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Codau Ymarfer perthnasol.

Monitro Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn Fewnol

Roedd yr awdurdod yn cynnal rhywfaint o waith monitro meintiol o weithgareddau gorfodi cyfraith safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ond mae

angen iddo gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Codau Ymarfer perthnasol yn ei holl weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.

Samplu Safonau Bwyd

Nid oedd yr awdurdod wedi cymryd camau dilynol priodol mewn ymateb i ganlyniadau anfodhaol yn sgil samplu safonau bwyd.

Canfyddiadau'r Archwiliad

3 Trefniadaeth a Rheolaeth

Fframwaith Strategol, Polisi a Chynllunio'r Gwasanaeth

- 3.1 Roedd yr awdurdod yn gweithredu dull Cabinet o lywodraeth leol gyda Chyfansoddiad a oedd yn amlinellu trefniadau'r awdurdod ar gyfer gwneud penderfyniadau. O dan y Cyfansoddiad, roedd penderfyniadau am rai materion penodol wedi'u dirprwyo i swyddogion.
- 3.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu 'Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2013/14' ('y Cynllun Gwasanaeth') a oedd yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth a geir yn y Cytundeb Fframwaith. Fe'i cymeradwywyd gan y deiliad portffolio perthnasol ym mis hydref 2013.
- 3.3 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cydnabod cyfraniad y gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid at y deilliannau allweddol yng Nghynllun Powys Yn Un ac at flaenoriaethau'r Asiantaeth.
- 3.4 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn amlinellu nodau ac amcanion y gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid. Y nodau oedd i) sicrhau bod bwyd (gan gynnwys diodydd) y bwriedir ei gyflenwi i'w fwyta gan bobl ac sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin a thrafod, neu ei fwyta ym Mhowys yn cael ei labelu'n gywir, bod ei gyfansoddiad yn foddhaol ac nad yw'n peri risg i iechyd na diogelwch y defnyddiwr a ii) sicrhau bod yr holl fwydydd anifeiliaid sy'n cael eu cynhyrchu, eu storio, eu dosbarthu, eu trin a thrafod, neu eu bwydo i anifeiliaid ym Mhowys yn cael eu labelu'n gywir, bod eu cyfansoddiad yn foddhaol ac nad ydynt yn peri risg i iechyd na diogelwch anifeiliaid na cyhoedd.
- 3.5 Dyma amcanion y gwasanaeth:

- “Cynnal cofnod cywir a chyfredol o’r holl safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid.
- Cynnal rhaglen samplu gydlynedig o fwyd a bwydydd anifeiliaid sy’n cael eu cyflenwi neu eu cynhyrchu ym Mhowys.
- Cynnal rhaglen arolygiadau seiliedig ar risg, wedi’i chynllunio, o fusnesau lleol.
- Mynd i’r afael â chwynion am fwyd a bwydydd anifeiliaid mewn modd cyson a chydlynedig.
- Darparu cyngor amserol ac addysgiadol i fusnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid lleol.
- Ymchwilio a rheoli achosion a chlefydau heintus sy’n gysylltiedig â bwyd.
- Ymateb i ddigwyddiadau diogelwch bwyd yn gysylltiedig â’r system rhybuddion perygl bwyd”.

3.6 Amlinellwyd rhaglenni’r ymyriadau cynlluniedig ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Cynllun Gwasanaeth:

Hylendid Bwyd

Categori risg	Cyfanswm nifer y safleoedd	Arolygiadau a gynlluniwyd
A	32	64
B	197	198
C	897	548
D	294	120
E	1176	Heb eu darparu*
Heb sgôr	0	
Cyfanswm	2596	930

* “Nid oes angen i safleoedd Categori E gael arolygiad sylfaenol mwyach ond rhaid iddynt fod yn destun strategaeth orfodi amgen nid llai nag unwaith mewn unrhyw gyfnod tair blynedd. Felly, bwriedir targedau’r safleoedd hynny trwy lythyr pan nad ydynt yn cael ymweliad, i wirio na fu unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y busnes”.

Safonau Bwyd

Categori risg	Cyfanswm nifer y	Arolygiadau a
---------------	------------------	---------------

	safleoedd	gynlluniwyd
Uchel	46	46
Canolig	980	482
Isel	696	134
Cyfanswm	1,722	656*

**Mae'r ffigurau uchod yn seiliedig ar y ffigurau a ddarparwyd cyn diweddariad TG i M3 sydd wedi cael effaith niweidiol ar y categorïau risg. Mae'n hynod annhebygol y cyflawnir y nifer hon o ymweliadau, ond bydd y pwyslais ar gyflawni ein targedau risg 'uchel'.*

Bwyd Anifeiliaid

Categori risg	Arolygiadau a gynlluniwyd
Uchel	3
Canolig	10
Isel	0
Cyfanswm	13*

Dywed y Cynllun Gwasanaeth "fod 4,269 o sefydliadau bwyd anifeiliaid yn destun arolygiadau gan swyddogion Safonau Masnach (y mae 586 ohonynt wedi cofrestru)". Ni ddarparwyd proffiliau risg sefydliadau bwyd anifeiliaid yn y Cynllun oherwydd, heblaw am ychydig eithriadau, nid oeddent wedi'u harolygu.

Dywedodd y Cynllun Gwasanaeth "Bydd sgoriau risg yn newid yn ystod 2013/14 i adlewyrchu cynllun sgoriau risg newydd Cymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach, a fydd yn golygu cynnydd yn nifer y safleoedd y mae'n rhaid eu harolygu. Er enghraifft, rhagwelir y bydd safleoedd sy'n peri risg uchel yn cynyddu o 3 i 22 o dan y codau risg newydd."

- 3.7 Amcangyfrifwyd y byddai angen 745 o ailymweliadau yn gysylltiedig â hylendid bwyd. Fodd bynnag, nid oedd awgrym ynghylch nifer y sefydliadau a fyddai'n destun ymyrraeth amgen na nifer y sefydliadau bwyd newydd y byddai angen eu harolygu yn ystod y flwyddyn.
- 3.8 Nid oedd awgrym o nifer yr ymyriadau safonau bwyd mewn busnesau newydd wedi'i amlinellu yn y cynllun. At hynny, ni ddarparwyd amcangyfrif clir o nifer yr ailymweliadau ynghylch safonau bwyd, oherwydd bod y ffigurau ar gyfer ailymweliadau ynghylch safonau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u cyfuno.

- 3.9 Amcangyfrifwyd bod 4,269 o sefydliadau bwyd anifeiliaid ym Mhowys yn destun rheolaethau swyddogol, ond nid oedd yr un ohonynt wedi cael sgôr risg. Er bod 13 o arolygiadau o sefydliadau bwyd anifeiliaid wedi'u cynllunio, ni ddarparwyd y nifer yr oedd angen eu harolygu. Yn amlwg, nid oedd nifer yr arolygiadau wedi'u cynllunio yn ddigon i gwrdd â gofynion Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.
- 3.10 Nid oedd amcangyfrif o nifer y busnesau bwyd anifeiliaid newydd yr oedd angen eu harolygu wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth, na nifer yr ailymweliadau.
- 3.11 Roedd yr awdurdod yn ymrwmo i'r Cynllun Prif Awdurdod a'r Egwyddor Awdurdod Cartref. Er nad oedd yn gweithredu fel Prif Awdurdod i unrhyw fusnes, roedd yn gweithredu fel Awdurdod Cartref i 15 o fusnesau bwyd ac un busnes bwyd anifeiliaid.
- 3.12 Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer samplu bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Cynllun Gwasanaeth. Roedd yr awdurdod wedi cymryd rhan yn Arolwg Basged Siopa Cymru gan samplu bwydydd a gynhyrchwyd yn lleol ac yn genedlaethol i fonitro eu hansawdd. Yn ogystal â'r rhaglenni samplu lleol hyn, roedd yr awdurdod wedi cymryd rhan mewn arolygon samplu bwyd cenedlaethol hefyd.
- 3.13 Rhoddwyd cyngor am ddim i fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid i'w helpu i gydymffurfio â'r gyfraith ac amlinellwyd cynlluniau'r awdurdod ar gyfer gwaith hyrwyddo safonau a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Cynllun Gwasanaeth.
- 3.14 Amlinellwyd y trefniadau ar gyfer monitro mewnol yn y Cynllun Gwasanaeth. Roedd y rhain yn gyfyngedig i fonitro meintiol ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid ond roeddent yn cynnwys monitro ansoddol ar gyfer hylendid bwyd.
- 3.15 Rhoddodd y Cynllun Gwasanaeth fanylion y staff a oedd ar gael ar gyfer gwaith gorfodi bwyd a bwyd anifeiliaid ond nid oedd yn amlygu'r union adnoddau yr oedd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth.
- 3.16 Er bod costau net darparu gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'u rhoi, ni roddwyd digon o fanylion am y costau ansefydlog, gan gynnwys staffio, cyllidebau samplu, teithio a chynhaliadau, offer a

darpariaeth ariannol ar gyfer unrhyw gamau cyfreithiol. Ni ddarparwyd y costau a oedd ynghlwm wrth ddarparu'r gwasanaeth gorfodi bwyd anifeiliaid.

3.17 Roedd adolygiad o gyflawniadau 2012/13 a meysydd i'w gwella yn 2013/14 wedi'i gynnwys yn y Cynllun. Roedd y meysydd i'w gwella yn cynnwys:-

- Cynhyrchu copi electronig o'r cynllun gwasanaeth diogelu bwyd a'r polisi gorfodi a sicrhau eu bod ar gael drwy'r e-bost ac ar wefan yr Awdurdod.
- Llunio erthyglau hybu amrywiol gan gynnwys cylchlythyr i fusnesau, ac ati.
- Parhau i gynnal hyfforddiant cysondeb gyda swyddogion mewnol ond, hefyd, ar draws ffiniau pryd bynnag y bo ar gael.
- Sicrhau bod yr awdurdod mewn sefyllfa i wneud cais i'r Asiantaeth Safonau Bwyd am gyllid ychwanegol ar gyfer gwaith prosiect ac i gyflawni gwaith o'r fath.
- Arfarnu gofynion arolygu hylendid bwyd a gweithredu rhaglen fel y gellir cyflawni'r swyddogaeth hon yn well trwy amrywiol dulliau

3.18 Roedd trefniadau digonol ar waith gan yr awdurdod i adolygu ac adrodd ar ei berfformiad yn darparu rheolaethau swyddogol hylendid bwyd trwy ei brosesau cynllunio gwasanaeth, adolygu gwasanaeth a chraffu. Fodd bynnag, nid oedd y trefniadau ar gyfer adolygu ac adrodd ar berfformiad o ran safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn ddigon trylwyr.

Argymhellion

3.19 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid darparu nifer yr ymyriadau sydd wedi'u cynllunio, gan gynnwys ymyriadau amgen, amcangyfrif o nifer yr arolygiadau o fusnesau newydd a'r ailymweliadau y bydd eu hangen i fodloni gofynion Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. At hynny, dylid darparu gwybodaeth fanylach am

gostau darparu gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid. Dylid cynnwys dadansoddiad trylwyr o'r adnoddau y mae eu hangen o gymharu â'r rhai sydd ar gael, a chynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a amlygir. [Y Safon – 3.1]

- (ii) O ran safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, cynnal adolygiad cofnodedig o'i berfformiad yn seiliedig ar y Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn, i'w gymeradwyo gan y fforwm aelodau perthnasol neu'r uwch swyddog dynodedig. Os caiff unrhyw amrywiadau eu hamlygu, dylid mynd i'r afael â rhain yng Nghynllun Gwasanaeth dilynol yr awdurdod. [Y Safon – 3.2 a 3.3]

4 Adolygu a Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau Cofnodedig

- 4.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ystod eang o bolisiâu a gweithdrefnau cofnodedig mewn perthynas â hylendid bwyd, yn ymdrin â phob agwedd ar ddarparu gwasanaeth sy'n benodol i Bowys. Roedd rheolwyr yn gyfrifol am ddatblygu a chymeradwyo'r dogfennau hyn, ynghyd â sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu.
- 4.2 Roedd system ffurfiol o reoli dogfennau ar waith ar gyfer hylendid bwyd ac roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod y polisiâu a'r gweithdrefnau diweddaraf ar gael ar fewnwyd yr awdurdod i swyddogion gael atynt. Roedd pob swyddog yn gallu mynd at y rhyngwyd i edrych ar ddeddfwriaeth, Codau Ymarfer a chanllawiau eraill a gyhoeddir yn ganolog. Ni ddaeth yr archwiliad o hyd i gopiâu ar waith o unrhyw ddogfennau wedi'u disodli.
- 4.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisiâu a gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Roedd y Rheolwr Safonau Masnach wedi cymeradwyo'r rhain ac roeddent ar gael i staff yn electronig ar y gyriant cyffredin. At hynny, roedd amrywiaeth eang o ddogfennau canllaw a llythyron enghreifftiol ar gael yn electronig ar yriant cyffredin. Roedd detholiad cynhwysfawr o ddogfennau canllaw i fasnachwyr a oedd ar gael i fusnesau bwyd ar wefan yr awdurdod yn ategu'r rhain. Roedd tanysgrifiad yr awdurdod i TS Broadcast yn sicrhau bod y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus.
- 4.4 Trafododd yr archwilwyr fanteision cyflwyno system ffurfiol o reoli dogfennau ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid oherwydd, yn gyffredinol, nid oedd dogfennau wedi'u cadw'n electronig yn cael eu diogelu er mwyn atal diwygiadau heb eu hawdurdodi.
- 4.5 Roedd mwyafrif y polisiâu a gweithdrefnau cofnodedig wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Fodd bynnag, yn ystod yr archwiliad, amlygwyd nifer o ddogfennau yr oedd angen eu diweddarau, e.e. y Polisi Gorfodi a'r Weithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Droseddau, Adrodd Arnynt a'u Prosesu.

Argymhellion

4.6 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau cofnodedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. [Y Safon – 4.1]
- (ii) Ymestyn ei system rheoli dogfennau i gynnwys gweithgareddau gorfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 4.2]

5 Swyddogion Awdurdodedig

- 5.1 Roedd cynllun dirprwyo'r awdurdod wedi'i amlinellu yn ei Gyfansoddiad ac roedd yn rhoi pwerau dirprwyo cyffredinol i'w holl Brif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion i awdurdodi swyddogion. Hefyd, roedd y Cyfansoddiad yn rhagnodi pŵer y Prif Swyddog Cyfreithiol i awdurdodi a gweinyddu erlyniadau.
- 5.2 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn awdurdodi gofnodedig i sicrhau bod swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn meddu ar y cymwysterau a'r profiad addas, a'u bod yn gymwys i gyflawni'r ystod tasgau a dyletswyddau y rhoddwyd awdurdod iddynt eu cyflawni. Roedd y weithdrefn yn datgan mai'r Cyfarwyddwr Lle neu, yn ei absenoldeb, y Pennaeth Adfywio, Eiddo a Chomisiynu, oedd yn gyfrifol am awdurdodi swyddogion.
- 5.3 Nid oedd y meini prawf ar gyfer pennu cymwyseddau swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid cyn eu hawdurdodi a'r trefniadau ar gyfer awdurdodi swyddogion newydd neu swyddogion a oedd yn dychwelyd i'r gwaith wedi'u cofnodi.
- 5.4 Roedd y weithdrefn awdurdodi ar gyfer swyddogion hylendid bwyd yn amlinellu dull awdurdodi yn seiliedig ar asesiad o hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad gan ddefnyddio ffurflen asesu cymhwysedd.
- 5.5 Roedd yr awdurdod wedi penodi prif swyddogion ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd, bwyd anifeiliaid a chlefydau trosglwyddadwy, bob un ohonynt yn meddu ar y cymwysterau, yr hyfforddiant a'r wybodaeth arbenigol ofynnol.
- 5.6 Er na chafodd amcangyfrif o'r adnoddau sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaeth gorfodi bwyd anifeiliaid yr awdurdod o gymharu â'r adnoddau sydd ar gael ei ddarparu yng Nghynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid blynyddol yr awdurdod, nododd archwilyr fod y 0.1 swyddog cyfwerth ag amser llawn a neilltuwyd yn annhebygol o fod yn ddigonol.
- 5.7 Aseswyd anghenion hyfforddi swyddogion yn ystod adolygiadau blynyddol o berfformiad. Roedd 'Blaengynlluniau Datblygiad/Hyfforddiant Personol Blynyddol' ar waith ar gyfer pob aelod staff, yn amlinellu'r

targedau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn. Cyflwynwyd ceisiadau am hyfforddiant ar ffurflen 'Anghenion ac Arfarnu Hyfforddiant' ac fe'u cymeradwywyd gan reolwyr llinell dynodedig.

- 5.8 Roedd tystiolaeth bod cynnydd swyddogion hylendid bwyd wrth gyflawni eu cynlluniau hyfforddiant yn cael ei fonitro gan y prif swyddog hylendid bwyd.
- 5.9 Archwiliwyd awdurdodiadau, asesiadau cymhwysedd, cymwysterau a chofnodion hyfforddiant 10 swyddog a oedd yn ymwneud â darparu rheolaethau swyddogol yn ystod y ddwy flynedd flaenorol ar draws y gwasanaethau hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
- 5.10 Roedd swyddogion wedi'u hawdurdodi o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Rhoddwyd awdurdodiadau o dan reoliadau perthnasol cyswllt yn gyffredinol o dan y Deddfau hyn, yn groes i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog, sy'n datgan bod angen rhoi awdurdodiad ar wahân i swyddogion fynd i'r afael â materion sy'n codi o dan Reoliadau gweithredu penodol. Dywedwyd wrth archwilwyr bod hyn wedi'i godi gydag adran gyfreithiol yr awdurdod a'i bod yn fodlon y byddai'r awdurdodiadau presennol yn gwrthsefyll her gyfreithiol.
- 5.11 Nododd archwilwyr fod awdurdodiadau a'r pwerau a weithredwyd gan swyddogion yn eu hymarfer yn gyson â'u cymwysterau a'u hyfforddiant at ei gilydd. Fodd bynnag, nid oedd un o'r swyddogion sy'n gyfrifol am samplu bwyd anifeiliaid wedi derbyn hyfforddiant ar samplu bwyd anifeiliaid er 2003. Yn ogystal, nid oedd swyddog sy'n gyfrifol am arolygu busnesau bwyd anifeiliaid lefel 2 wedi cael hyfforddiant ar fwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio.
- 5.12 Cadarnhaodd cofnodion fod swyddogion wedi derbyn y 10 awr ofynnol o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus yn unol â Chodau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.
- 5.13 Roedd yr holl swyddogion perthnasol wedi derbyn hyfforddiant cysondeb ar gymhwyso sgoriau risg hylendid bwyd o dan Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ac wedi mynychu hyfforddiant ar Ganllaw Rheoli Croeshalogaeth yr Asiantaeth.

5.14 Roedd cofnodion hyfforddiant a chymwysterau swyddogion wedi'u cynnal gan yr awdurdod.

Argymhellion

5.15 Dylai'r awdurdod:

- (i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei weithdrefn ar gyfer awdurdodi swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid i sicrhau bod y meini prawf ar gyfer pennu cymwyseddau swyddogion a'i ddull o awdurdodi swyddogion newydd a'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith wedi'u cynnwys. [Y Safon – 5.1]
- (ii) Penodi nifer ddigonol o swyddogion awdurdodedig i gynnal rheolaethau bwyd swyddogol yn unol â gofynion y Cytundeb Fframwaith a Chod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon – 5.3]
- (iii) Sicrhau bod pob swyddog bwyd awdurdodedig yn cael yr hyfforddiant sy'n ofynnol i fod yn gymwys i gyflawni'r gwaith y bydd yn ymwneud ag ef, yn unol â Chod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon – 5.4]

6 Cyfleusterau ac Offer

- 6.1 Roedd gan yr awdurdod y cyfleusterau a'r offer angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth hylendid bwyd a safonau bwyd yn effeithiol ac i gynnal gweithgareddau samplu bwyd anifeiliaid. Roedd y rhain yn cael eu storio'n briodol ac ar gael i swyddogion perthnasol.
- 6.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Graddnodi Offer a oedd yn amlinellu'r trefniadau i sicrhau bod offer, fel thermomedrau, yn cael eu henwi'n gywir, eu hasesu o ran cywirdeb ac yn cael eu symud o wasanaeth pe ganfyddid eu bod yn ddiffygiol. Cyfeiriodd y polisi at amlderau profi a lefelau goddefiant, ynghyd â'r camau i'w cymryd os aethpwyd heibio i lefelau goddefiant, a oedd yn cyd-fynd â Chanllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 6.3 Roedd swyddogion wedi cael thermomedrau is-goch a thermomedrau profi, a oedd yn cael eu graddnodi gan ddefnyddio thermomedr cyfeirio ac allweddi profi graddnodi. Roedd y polisi yn gofyn bod offer yn cael eu graddnodi o leiaf unwaith bob chwe mis. Gan amlaf, roedd y graddnodi'n cael ei gyflawni bob tri mis. Roedd yr awdurdod yn cynnal cofnodion yn ymwneud â graddnodi, er nad oedd y goddefiant a gofnodwyd ar y ffurflen a ddefnyddiwyd yng ngogledd yr awdurdod i gofnodi gwiriadau graddnodi yn cyd-fynd â'r goddefiant yn y polisi.
- 6.4 Roedd archwiliad o'r cofnodion yn ymwneud â'r gwiriadau graddnodi diweddaraf ac a gadwyd yn y swyddfa yn y de yn cadarnhau bod yr holl thermomedrau o fewn y goddefiant derbynol a ragnodwyd yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd ac ym mholsi'r awdurdod. Fodd bynnag, dangosodd cofnodion y gwiriadau graddnodi a gynhaliwyd yn y gogledd bod pedwar thermomedr profi unigol dros y lefel goddefiant derbynol. Ni symudwyd y thermomedrau hyn o wasanaeth gan fod y swyddog a gynhaliodd y gwiriadau yn dilyn y goddefiant uwch a gofnodwyd ar y ffurflen.
- 6.5 Roedd gan yr awdurdod system gyfrifiadurol a oedd yn cael ei defnyddio i gynnal cronfa ddata o safleoedd bwyd a bwyd anifeiliaid ac i gofnodi gwybodaeth sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth.
- 6.6 Roedd gweinyddwyr systemau'n sefydlu defnyddwyr newydd ar y system ac yn darparu gwybodaeth reoli ac adroddiadau perfformiad, yn ogystal

â rhoi cymorth hollbwysig wrth ddarparu ffurflenni bwyd a bwyd anifeiliaid blynyddol i'r Asiantaeth.

- 6.7 Yn 2012/13, roedd y system gyfrifiadurol yn gallu lanlwytho data ar hylendid bwyd a safonau bwyd yn awtomatig i LAEMS ac roedd y ffurflenni wedi'u darparu i'r Asiantaeth yn amserol. Roedd ffurflen bwyd anifeiliaid 2012/13 hefyd wedi'i chyflwyno i'r Asiantaeth.
- 6.8 Yn fuan cyn yr archwiliad, roedd yr awdurdod wedi ceisio mudo data ar sgoriau risg safonau bwyd o Gynllun Asesu Risg Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol (LACORS) i Gynllun Asesu Risg Safonau Masnach Cenedlaethol. O ganlyniad i hyn, collwyd data sgorio risg ar gyfer nifer sylweddol o fusnesau. I wneud yn iawn am y golled hon, roedd swyddogion wedi dechrau cymhwyso sgoriau asesiadau risg bwrdd gwaith i'r busnesau hynny, gyda'r busnesau hynny'n gwybod y byddent yn cael sgoriau risg yn dilyn yr arolygiad nesaf wedi'i gynllunio.
- 6.9 Bydd yr awdurdod yn gallu meintoli effaith colli'r data hwn yn well ar ddiwedd y flwyddyn pan fydd yn dychwelyd ffurflen LAEMS 2013/2014 ar safonau bwyd.
- 6.10 Roedd y gronfa ddata o sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i diogelu gan gyfrinair fel na allai pobl anawdurdodedig fynd at y system. Roedd systemau wrth gefn ar waith hefyd i leihau cymaint â phosibl y risg o golli gwybodaeth o'r gronfa ddata a'r ffeiliau electronig a ddefnyddir i gadw gwybodaeth allweddol.

Argymhellion

- 6.11 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod y terfynau goddefiant derbyniol a amlinellir yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd yn cael eu dilyn wrth gynnal gwiriadau graddnodi ar thermomedrau a bod unrhyw offer sydd dros y lefel goddefiant yn cael eu symud o wasanaeth. [Y Safon – 6.2]
 - (ii) Sicrhau bod systemau ar waith i atal colli data ar sgoriau risg safonau

bwyd o'i gronfa ddata. [Y Safon – 6.4]

7 Ymyriadau ac Arolygiadau Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

- 7.1 Yn 2012/13, roedd yr awdurdod wedi adrodd trwy LAEMS bod 99.86% o fusnesau bwyd categori A-E y dylid bod wedi'u harolygu wedi cael eu harolygu, a bod 84.10% o fusnesau bwyd yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â chyfraith hylendid bwyd (ac eithrio busnesau heb eu sgorio a'r rhai hynny y tu allan i gwmpas y cynllun sgorio risg). Roedd hyn tua 1.55% yn well na'r 82.55% o fusnesau yr adroddwyd eu bod yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' yn y flwyddyn flaenorol.
- 7.2 Ar adeg yr archwiliad, roedd 419 o ymyriadau mewn sefydliadau bwyd dros 28 diwrnod yn hwyr, yr oedd dim ond 33 ohonynt yn rhai risg uwch. Roedd mwyafrif y safleoedd risg uwch hyn i fod i gael arolygiad yn y pum mis cyn yr archwiliad. Roedd gweddill yr arolygiadau hwyr yn ymwneud â sefydliadau risg is, yr oedd un ohonynt heb fod yn destun ymyrraeth yn y pum mlynedd flaenorol. Fodd bynnag, dangosodd y data hwn fod yr awdurdod yn mabwysiadu dull seiliedig ar risg yn ei raglen arolygu.
- 7.3 Rhoddodd Arweinydd Proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd (Masnachol) wybod i'r archwilwyr bod yr awdurdod wedi mabwysiadu dull seiliedig ar risg o gynnal arolygiadau o fusnesau bwyd newydd, a oedd yn cyd-fynd â'r hyblygrwydd a ddarperir mewn canllawiau a gyhoeddir yn ganolog.
- 7.4 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ystod o weithdrefnau cofnodedig, ffurflen arolygu gyffredinol ynghylch hylendid bwyd a ffurflenni arolygu ar wahân ar gyfer siopau cigydd a sefydliadau penodol i gynnyrch, yn amodol ar Gymeradwyaeth. Diben y dogfennau hyn oedd sefydlu dull unffurf o gynnal gwaith y rheolaethau swyddogol hylendid bwyd. Cadarnhaodd archwiliad o'r dogfennau hyn eu bod wedi'u datblygu yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog.
- 7.5 Edrychwyd ar gofnodion 10 safle bwyd yn ystod yr archwiliad. Roedd yr hanes yn ffeiliau chwe safle yn cadarnhau eu bod wedi'u harolygu ar yr amllder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, ni arolygwyd pedwar safle ar yr amllder gofynnol, yr oedd tri ohonynt yn safleoedd risg uwch (dau gategori B ac un categori C), ac un ohonynt yn safle risg is (categori D). Roedd

safleoedd Categori B wedi cael eu harolygu dros ddau fis ar ôl y dyddiadau y dylent fod wedi cael eu harolygu, ac roedd safle Categori C wedi'i arolygu'n hwyr ar ddau achlysur, gyda'r arolygiad diweddaraf dros fis yn hwyr. Roedd y safle Categori D wedi'i arolygu dros saith mis yn hwyr. Mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn mynnu bod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 niwrnod o'r dyddiadau pryd y dylid eu cynnal.

- 7.6 Roedd cofnodion arolygu ar gael ac yn ddarllenadwy ar gyfer y 10 safle bwyd a archwiliwyd. At ei gilydd, roedd yr wybodaeth a gofnodwyd gan swyddogion ar ffurflenni arolygu'n ddigon manwl i ddangos bod asesiad o gydymffurfiaeth â gweithdrefnau ar sail Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) wedi'i gynnal ac, mewn wyth achos, roedd gwybodaeth ar gael i ddangos bod trafodaethau'n ymwneud â monitro Pwyntiau Rheoli Critigol wedi'u cynnal. Yn ogystal, cadarnhaodd cofnodion arolygiadau fod bwydydd wedi'u mewnfurio wedi'u hystyried. Yn gyffredinol, nid oedd hi'n bosibl dirnad o'r cofnodion a oedd ar gael bod gwiriadau'n cael eu cynnal i ddilysu ffynhonnell nodau adnabod/iechyd ar ddeunyddiau crai. Er hynny, roedd yr awdurdod yn gallu dangos bod camau gorfodi wedi'u cymryd mewn amgylchiadau lle nad oedd busnesau wedi gallu dilysu ffynhonnell bwydydd penodol yn eu meddiant.
- 7.7 Mewn pum achos, cadarnhaodd cofnodion arolygu fod swyddogion wedi cynnal asesiad digonol o gydymffurfiaeth â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog ar reoli croeshalogiad. Mewn tri achos, nid oedd y canllawiau yn berthnasol i'r gweithrediadau bwyd yn y busnesau hyn ac, yn y ddau achos arall, roedd y cofnodion yn annigonol i ddangos bod pob agwedd ar y canllawiau wedi'u hystyried yn briodol.
- 7.8 Roedd y sgoriau risg a roddwyd ac a gofnodwyd ar ffeiliau'r sefydliadau yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiadau, ond mewn un achos yn ymwneud â busnes risg is, roedd sgôr risg anghywir wedi'i rhoi ar gronfa ddata'r awdurdod. Nid oedd unrhyw oblygiadau anffafriol o ganlyniad i hyn, gan fod y safle wedi'i raglennu i gael ymyrraeth yn fwy aml.
- 7.9 Dywedodd Polisi Ailymweld yr awdurdod, 'yn gyffredinol, bydd unrhyw fusnes bwyd yr asesir nad yw'n 'cydymffurfio'n gyffredinol' â deddfwriaeth hylendid bwyd yn cael ailymweliad(au) ynghyd ag unrhyw gamau gorfodi angenrheidiol eraill.' O ran y 10 achos a archwiliwyd, nid oedd angen ailymweliad ar bedwar safle. Lle'r oedd angen

ailymweliadau, roedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod y rhain wedi'u cynnal. Fodd bynnag, nid oedd dau o'r ailymweliadau hyn wedi'u cynnal o fewn y graddfeydd amser a nodwyd.

- 7.10 Roedd swyddogion wedi cymryd camau dilynol priodol, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod, ym mhob achos lle yr amlygwyd diffyg cydymffurfio.
- 7.11 Roedd yr awdurdod wedi datgan yn ei Gynllun Gwasanaeth bod 14 sefydliad cymeradwy yn ei ardal. Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud ag wyth o'r rhain. Sylwodd yr archwilwyr, yn gyffredinol, fod ffeiliau'r sefydliadau'n cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Ymhlith y dogfennau nad oeddent ar gael oedd cynlluniau dosbarthu dŵr, draenio a rheoli plâu, ynghyd â chanlyniadau samplu a wnaed gan y busnesau.
- 7.12 Roedd hanes arolygiadau'r sefydliadau cymeradwy yn cadarnhau, yn y blynyddoedd diwethaf, bod chwech o'r wyth wedi'u harolygu ar yr amlderau sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Roedd y ddau achos nas arolygwyd ar yr amlder gofynnol yn rhai categori A a chategori C. Roedd sefydliad categori A wedi'i arolygu ar ôl y dyddiad y dylai fod wedi cael ei arolygu ar ddau achlysur, dros fis yn hwyr yr ail dro. Yn yr achos arall, arolygwyd y sefydliad rhyw chwe mis ar ôl y dyddiad y dylai fod wedi cael ei arolygu. Achoswyd yr oedi i'r arolygiad diwethaf hwn gan fod sgôr risg anghywir wedi'i chofnodi ar gronfa ddata'r awdurdod.
- 7.13 Roedd dogfennau cymorth cof 'penodol i gynnyrch' priodol wedi'u defnyddio ar gyfer arolygiadau sefydliadau cymeradwy, ond mewn tri achos, nid oedd digon o wybodaeth wedi'i chofnodi ar y ffurflenni i gadarnhau cwmpas yr arolygiad. Yn yr achosion hyn, ni allai archwilwyr bennu graddau llawn yr asesiad o gydymffurfiaeth â gweithdrefnau ar sail egwyddorion HACCP na bod archwiliad o gofnodion CCP wedi'i gynnal.
- 7.14 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i sefydliadau cymeradwy yn gyson at ei gilydd â chanfyddiadau'r arolygiad. Yn un achos, nid oedd y sgôr risg yn adlewyrchu natur gweithgareddau bwyd y busnes, a arweiniodd at roi categori risg gyffredinol uwch a chynnydd yn amlder arolygu'r sefydliad.

- 7.15 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Gweithdrefn Strategaeth Orfodi Amgen ar gyfer sefydliadau risg isel. Roedd y dull yn y weithdrefn yn cynnwys gohebiaeth, ar ffurf cylchlythyr, gyda llythyr eglurhaol yn cynnwys cais i'r gweithredwr busnes bwyd hysbysu'r awdurdod am unrhyw newidiadau a fu i'r busnes. Cafodd yr archwilwyr wybod bod swyddogion hefyd yn cael rhestr flynyddol o sefydliadau categori E a oedd i fod i gael ymyrraeth, er mwyn amlygu unrhyw fusnesau y gwyddai'r swyddogion bod eu gweithgareddau wedi newid a bod angen ymweliad arnynt.
- 7.16 Archwiliwyd cofnodion 10 sefydliad a fu'n destun y Strategaeth Orfodi Amgen. Sylwodd yr archwilwyr fod y busnesau hyn wedi cael prif arolygiad yn flaenorol ac wedi cael sgôr risg priodol. Fodd bynnag, ym mhob achos, roedd gweithredu yn unol â'r strategaeth orfodi amgen o leiaf chwe mis yn hwyr. Mae Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd yn datgan fod yn rhai i sefydliadau risg isel fod yn destun ymyrraeth o dan y strategaeth orfodi amgen neu ymyrraeth arall o leiaf unwaith yn ystod unrhyw gyfnod tair blynedd.
- 7.17 Ym mhob achos, roedd cofnodion ar gael i gadarnhau bod yr awdurdod wedi gweithredu gweithdrefn y strategaeth orfodi amgen. At hynny, cafodd yr archwilwyr dystiolaeth bod sefydliad a oedd i fod yn destun y strategaeth orfodi amgen wedi'i arolygu gan fod y swyddog wedi canfod newidiadau i weithgareddau'r busnes diolch i'w wybodaeth leol.
- 7.18 Trafododd archwilwyr fanteision cynnal ymweliadau â sampl o sefydliadau a fu'n destun y strategaeth orfodi amgen i gadarnhau eu bod wedi bod yn gymwys ar gyfer y math hwn o ymyrraeth.

Argymhellion

- 7.19 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]
 - (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon - 7.2]

- (iii) Sicrhau bod arsylwadau a wneir wrth gynnal arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal colli gwybodaeth berthnasol. [Y Safon – 7.5]

Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd

- 7.20 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliadau dilysu â dau sefydliad bwyd gyda swyddogion awdurdodedig yr awdurdod a gynhaliodd yr arolygiadau hylendid bwyd diwethaf. Prif amcan yr ymweliadau oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth busnes bwyd â gofynion cyfraith bwyd.
- 7.21 Roedd gan y swyddogion lawer o wybodaeth am y busnesau, ac roeddent yn dangos dealltwriaeth briodol o'r risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau yn y sefydliadau. Dangosodd y swyddogion eu bod wedi cynnal arolygiadau trylwyr ac wedi asesu'n briodol gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Roedd swyddogion wedi cynnig cyngor defnyddiol i'r gweithredwyr busnes bwyd hefyd.
- 7.22 Roedd cofnodion arolygiadau blaenorol yn adlewyrchu'r amodau a welwyd ar y safleoedd a, lle'r oedd angen, roedd tystiolaeth bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd.

Safonau Bwyd

- 7.23 Datganodd Cynllun Gwasanaeth 2013/14 fel a ganlyn 'yn 2012/13, roedd 99.09% o'r busnesau risg uchel a oedd i fod i gael arolygiad wedi'i gynllunio gan safonau masnach wedi cael eu harolygu', a bod '57.55% o fusnesau newydd a amlygwyd yn ystod y flwyddyn wedi bod yn destun arolygiad safonau masnach'.
- 7.24 Roedd yr ymyriadau i'w cynnal yn 2013/14 yn cynnwys 46 ymyrraeth risg uchel (categori A), 482 risg ganolig (categori B) a 134 risg isel (categori C). Nid oedd targedau arolygu'r awdurdod a amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth, a oedd yn cynnwys 100% o fusnesau risg uchel, 55% o

fusnesau newydd a amlygwyd yn ystod y flwyddyn a phrosesu 10% o holiaduron hunanasesu busnesau bwyd, yn cwrdd â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

- 7.25 Roedd gan yr awdurdod bolisi a gweithdrefnau arolygu safonau bwyd cofnodedig ar gyfer arolygu, samplu ac ailymweld. Fodd bynnag, sylwodd archwilwyr nad oedd y dogfennau hyn yn amlinellu dull yr awdurdod o ymdrin ag ymweliadau dirybudd, ymyriadau mewn busnesau bwyd newydd neu weithredu'r strategaeth orfodi amgen mewn sefydliadau bwyd risg isel. At hynny, roedd y polisi ailymweld yn canolbwyntio ar droseddau yn ymwneud â pha mor hir y mae bwyd yn para ac nid oedd yn cyfeirio at dramgwyddau safonau bwyd eraill yr oedd angen eu dilyn i fyny.
- 7.26 Cafodd cofnodion y 10 busnes bwyd a fu, yn ôl yr awdurdod, yn destun arolygiad safonau bwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad eu dewis i'w harchwilio. Nid oedd tri o'r rhain yn destun gwiriadau archwilio manwl, gan nad oeddent yn ymwneud ag arolygiadau, arolygiadau rhannol nac ymweliadau archwilio.
- 7.27 O ran y saith sefydliad sy'n weddill, roedd ffurflenni cofrestru'r busnes bwyd ar gael ar gyfer pedwar ohonynt a dangosodd y cofnodion bod yr arolygiadau diweddaraf yn rhai dirybudd. Fodd bynnag, nid oedd archwilwyr yn gallu cadarnhau a gynhaliwyd yr arolygiadau ar yr amlerau cywir dros y tri chylch arolygu diwethaf, gan nad oedd y cynllun sgorio risg a ddefnyddiwyd yn gyson â'r system yn Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 7.28 Sylwodd archwilwyr nad oedd y wybodaeth mewn cofnodion arolygu yn ddigon manwl i ddangos bod asesiad trylwyr wedi'i gynnal o gydymffurfiaeth â deddfwriaeth safonau bwyd. Er bod tystiolaeth i ddangos bod gofynion labelu wedi'u hystyried, nid oedd tystiolaeth bod swyddogion wedi cynnal asesiad o gydymffurfiaeth o ran safonau cyfansoddiad, olrheiniadwyedd, trefniadau tynnu cynnyrch yn ôl neu systemau rheoli ansawdd, fel y bo'n briodol.
- 7.29 Ymhellach, nid oedd gwybodaeth am faint a graddfa'r busnes, y math o fwyd a gynhyrchwyd a manylion cyflenwyr wedi'i chofnodi'n gyson.

- 7.30 O ganlyniad i'r diffyg manylion mewn cofnodion arolygu, nid oedd yr archwilyr yn gallu gwirio bod y sgoriau risg a neilltuwyd i safleoedd bwyd yn gywir.
- 7.31 Roedd camau wedi'u cymryd yn un o'r tri achos lle'r oedd cofnodion yn dangos bod angen dilyn i fyny. Yn y ddau achos arall, nid oedd tystiolaeth bod camau dilyn i fyny wedi'u cymryd i fynd i'r afael â thrangwydd parhaus mewn un achos nac i gasglu gwybodaeth bellach yn y llall. Ymhellach, roedd dau achos lle nad oedd modd casglu o'r cofnodion a oedd angen camau dilynol.
- 7.32 Er nad oedd yr awdurdod wedi cofnodi ei ddull ar gyfer y strategaeth orfodi amgen, dewiswyd cofnodion y 10 busnes bwyd a fu'n destun y strategaeth orfodi amgen yn ôl awdurdod i'w harchwilio.
- 7.33 Cadarnhaodd archwiliad o'r cofnodion nad oedd naw o'r 10 busnes a ddewiswyd yn gymwys ar gyfer y strategaeth orfodi amgen. Roedd wyth heb gael arolygiad a oedd yn pennu sgôr risg ac roedd un wedi cael sgôr risg ganolig yn flaenorol. Yn y sefydliad arall, roedd arolygiad blaenorol wedi'i gynnal, cafodd y sefydliad sgôr risg isel a neilltuwyd cod strategaeth orfodi amgen iddo.

Argymhellion

- 7.34 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynllunio a'u cynnal ar amllder nad yw'n llai na hwnnw a bennir o dan y cynllun sgorio ymyrraeth a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]
 - (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau o sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymddygiad Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Yn benodol, sicrhau bod y strategaethau orfodi amgen a'r cynllun sgorio risg a ddefnyddir yn gyson â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.2]
 - (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau â'r safonau a ragnodwyd yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3]

- | | |
|------|--|
| (iv) | Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig sy'n amlinellu dull ei strategaeth orfodi amgen ar gyfer safonau bwyd. [Y Safon – 7.4] |
| (v) | Sicrhau bod arsylwadau a wneir a/neu ddata a gesglir yn ystod arolygiad/ymyrraeth yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal colli gwybodaeth berthnasol. [Y Safon – 7.5] |

Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd

- 7.35 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd dau ymweliad dilysu gyda swyddogion awdurdodedig yr awdurdod a gynhaliodd yr arolygiadau safonau bwyd diwethaf. Prif amcan yr ymweliadau oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o'r systemau yn y busnes i sicrhau bod y bwyd yn bodloni gofynion cyfraith bwyd.
- 7.36 Roedd gan y swyddogion lawer o wybodaeth am y busnesau ac roeddent yn dangos dealltwriaeth briodol o'r agweddau ar y rheolaethau safonau bwyd a oedd yn berthnasol i'r gweithgareddau yno. Er nad oedd digon o wybodaeth yn y cofnodion arolygu i ddangos bod asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth wedi'u cynnal, dangosodd swyddogion eu bod wedi ystyried y rheolaethau safonau bwyd allweddol, perthnasol, yn ystod yr arolygiad ac wedi asesu cydymffurfiaeth â gofynion statudol perthnasol.

Bwyd Anifeiliaid

- 7.37 Roedd Cynllun Gwasanaeth 2013/14 yr awdurdod yn datgan bod 4,269 o fusnesau bwyd anifeiliaid yn ei ardal yn destun ymyriadau bwyd anifeiliaid. Er bod crynodeb gweithredol y cynllun yn datgan bod 583 o sefydliadau bwyd anifeiliaid wedi cofrestru, nodwyd nad oedd hyn yn gyson â'r ffigurau a adroddwyd yn ddiweddarach yn y cynllun, h.y. 586 sefydliad.
- 7.38 Cyn yr ymweliad archwilio â'r safle, dywedodd yr awdurdod fod gwybodaeth am ymyriadau bwyd anifeiliaid ar gael yn y ffurflen flynyddol ar fwyd anifeiliaid a gyflwynwyd i'r Asiantaeth. Roedd y ffurflen yn datgan bod 588 o sefydliadau bwyd anifeiliaid cofrestredig ym Mhowys; fodd

bynag, nid oedd hyn yn cynnwys dau weithgynhyrchwr bwyd anifeiliaid, ill dau wedi'u harolygu. Dywedodd y prif swyddog wrth yr archwilwyr mai dim ond tri sefydliad bwyd anifeiliaid yn ardal yr awdurdod a gafodd arolygiad ac na roddwyd sgôr risg bwyd anifeiliaid i'r rhain.

- 7.39 Yn y Cynllun Gwasanaeth, dywedwyd y byddai 13 o sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu harolygu yn 2012/13, yr oedd tri ohonynt yn sefydliadau risg uchel a 10 yn sefydliadau risg ganolig. Fodd bynnag, dywedwyd wrth yr archwilwyr fod categorïau'r sgoriau risg wedi deillio o asesiad a oedd yn ystyried yr holl weithgareddau safonau masnach a oedd yn berthnasol i'r busnesau ac nad oeddent yn perthyn yn benodol i weithgareddau bwyd anifeiliaid. Roedd codau gweithgareddau bwyd anifeiliaid a gafodd eu cymhwyso i sefydliadau yn awgrymu bod 12 gweithgynhyrchwr (codau R1-R4) ar gofrestr sefydliadau bwyd anifeiliaid yr awdurdod, nad oeddent yn cynnwys dau o'r gweithgynhyrchwyr a arolygwyd.
- 7.40 O ystyried y data a adroddwyd, awgrymwyd bod 14 o sefydliadau gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid yn ardal yr awdurdod. Gallai sefydliadau o'r fath fod yn rhai uchel eu risg a dylai'r rhaglen ymyrraeth roi blaenoriaeth i arolygu'r rhain a dylid cynnwys hyn yn y cynllun. Nid oes yn agos ddigon o arolygiadau bwyd anifeiliaid wedi'u cynllunio ar gyfer 2013/14 i fodloni gofynion y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.
- 7.41 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer arolygiadau bwyd a oedd yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Fodd bynnag, roedd y weithdrefn o'r farn bod arolygiad yn hwyr ddau fis ar ôl y dyddiad y dylid bod wedi ei gynnal. Nid oedd hyn yn cyd-fynd ag Atodiad 5 y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid, sy'n gofyn bod arolygiadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y dylid eu cynnal. Nid oedd y weithdrefn yn cynnwys datganiad o bolisi'r awdurdod ynghylch arolygiadau dirybudd. Roedd yr arolygiadau bwyd anifeiliaid a gyflawnwyd gan yr awdurdod wedi'u cyhoeddi.
- 7.42 Nid oedd yr awdurdod wedi cofnodi ei ddull o ddefnyddio'r strategaeth orfodi amgen ar gyfer sefydliadau bwyd anifeiliaid risg is.

- 7.43 Dewiswyd cofnodion 10 safle bwyd anifeiliaid i'w harchwilio, yr oedd tri ohonynt wedi'u harolygu yn y chwe blynedd cyn yr archwiliad. Cynhaliwyd yr arolygiadau gan swyddog a chanddo gymwysterau ac awdurdodiad priodol.
- 7.44 Ar adeg yr archwiliad, roedd yr arolygiadau rhwng chwe wythnos a chwe mis yn hwyr ym mhob un o'r tri safle bwyd anifeiliaid a arolygwyd yn flaenorol.
- 7.45 Roedd gwybodaeth gofrestru ar gael ar gronfa ddata'r sefydliadau bwyd anifeiliaid ar gyfer naw o'r 10 busnes a ddewiswyd i'w harchwilio. Ni edrychwyd ar gopiâu caled o ffurflenni cofrestru a rhoddodd y prif swyddog bwyd anifeiliaid wybod i'r archwilwyr bod rhywfaint o'r wybodaeth gofrestru a gadwyd gan yr awdurdod yn hanesyddol ac efallai nad oedd yn gyfredol.
- 7.46 Cadarnhawyd yn ystod yr archwiliad fod sgoriau risg y tri sefydliad a gafodd eu harolygu yn ymwneud ag elfen bwyd anifeiliaid y busnes. Roedd pob un ohonynt wedi cael y sgôr risg gywir, er nad oedd y cynllun sgorio risg a ddefnyddiwyd yn cyfateb i'r cynllun yn Atodiad 5 y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.
- 7.47 Roedd cofnodion arolygu ar gael ar gyfer y tri sefydliad a arolygwyd. Defnyddiodd swyddogion ffurflen arolygu'r Asiantaeth Safonau Bwyd i'w cynorthwyo i asesu cydymffurfiaeth â gofynion statudol perthnasol. Yn gyffredinol, mae gwybodaeth briodol wedi'i chynnwys ar ffurflenni arolygu er nad oedd gwybodaeth am gwsmeriaid ar gael. Fodd bynnag, mewn un achos, nid oedd yr awdurdod wedi cadw gwybodaeth HACCP ac mewn achos arall, nid oedd tystiolaeth bod asesiad o'r gofynion yn ymwneud â labelu bwyd anifeiliaid wedi'i gynnal yn ystod yr arolygiad. Yn ogystal, nid oedd archwilwyr yn gallu cadarnhau a oedd unrhyw broblemau wedi'u hamlygu yn ystod arolygiadau blaenorol, gan nad oedd manylion am y rhain ar gael ar gronfa ddata'r sefydliadau bwyd anifeiliaid.
- 7.48 Nid oedd angen camau dilynol ar ddau o'r tri sefydliad a arolygwyd. Fodd bynnag, yn yr achos arall, roedd yn ymddangos y byddai ailymweliad wedi bod yn briodol i gadarnhau bod materion a amlygwyd ar adeg yr arolygiad wedi'u cywiro.

7.49 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â 10 o sefydliadau bwyd anifeiliaid 'risg isel' a fu'n destun y strategaeth orfodi amgen. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y sefydliadau bwyd anifeiliaid hyn wedi cael arolygiad sylfaenol ac nad oeddent yn gymwys ar gyfer y strategaeth orfodi amgen. Roedd yr awdurdod wedi dynodi bod y broses o gofrestru busnes bwyd anifeiliaid yn destun y strategaeth orfodi amgen, yn groes i ofynion y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.

Argymhellion

7.50 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau o sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal ar yr amllder a nodir yn y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon – 7.1]
- (ii) Cynnal arolygiadau/ymyriadau a chymeradwyo neu gofrestru sefydliadau bwyd anifeiliaid yn unol â deddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]
- (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau bwyd anifeiliaid a systemau â safonau wedi'u rhagnodi'n gyfreithiol, gan gynnwys gofynion labelu bwyd anifeiliaid, a sicrhau bod camau dilynol priodol yn cael eu cymryd yn gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3]
- (iv) Diwygio'r Weithdrefn Arolygu Bwyd Anifeiliaid gofnodedig i sicrhau ei bod yn adlewyrchu gofynion y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a'i bod yn cynnwys dull yr awdurdod o gynnal ymyriadau mewn busnesau yr ystyrir eu bod yn rhai risg isel. [Y Safon – 7.4]
- (v) Sicrhau bod cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau'n cael eu storio fel y gellir eu hadalw. [Y Safon – 7.5]

Ymweliad Dilysu â Sefydliad Bwyd Anifeiliaid

- 7.51 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliad dilysu â busnes bwyd anifeiliaid gyda swyddog awdurdodedig yr awdurdod a gynhaliodd yr arolygiad bwyd anifeiliaid diwethaf yn y sefydliad. Prif amcan yr ymweliad oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth y busnes â gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid.
- 7.52 Roedd y swyddog yn gallu dangos digon o wybodaeth am y sefydliad a'r gweithgareddau yno, ac roedd ganddo ddealltwriaeth fanwl o'r gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid a oedd yn berthnasol i weithgareddau'r busnes. Roedd y nodiadau a wnaed gan y swyddog adeg yr arolygiad yn adlewyrchu natur a chwmpas yr arolygiad.
- 7.53 Ar adeg yr ymweliad, roedd archwilwyr yn gallu ystyried pa mor briodol oedd statws cymeradwyaeth y sefydliad a hefyd cadarnhau canfyddiadau'r archwiliad o'r cofnod, sef nad oedd labelu wedi'i asesu'n flaenorol. Fodd bynnag, roedd y swyddog wedi sicrhau label yn ystod yr ymweliad, gyda'r bwriad o gynnal asesiad i weld a oedd yn cydymffurfio â gofynion labelu bwyd anifeiliaid.

8 Cwynion am Fwyd, Bwyd Anifeiliaid a Sefydliadau Bwyd

- 8.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth 2013/14 yn amlinellu polisi'r awdurdod ar gyfer ymchwilio i gwynion am fwyd a bwyd anifeiliaid. Yn benodol, dywedwyd y byddai ymchwiliadau i gwynion am fwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal yn unol â gweithdrefnau adrannol a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 8.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu protocolau a gweithdrefnau hylendid bwyd er mwyn ymateb i gwynion am fwyd a sefydliadau bwyd, a mynd i'r afael â nhw. Roedd y protocolau a'r gweithdrefnau yn cyd-fynd â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. Roedd gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion am safonau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i chynnwys yn un o Lawlyfrau Gweithdrefnau Safonau Masnach.
- 8.3 Gofynnwyd am weld cofnodion 10 cwyn am hylendid bwyd, 10 cwyn am safonau bwyd a phob un o'r pum cwyn am fwyd anifeiliaid a gafwyd gan yr awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad er mwyn eu harchwilio.

Hylendid Bwyd

- 8.4 Roedd cofnodion y 10 cwyn am hylendid bwyd wedi'u cadw ar y gronfa ddata o sefydliadau bwyd a/neu ar gopiâu caled o ffeiliau'r sefydliadau.
- 8.5 Heblaw am un achos, ymchwiliwyd i'r cwynion am hylendid bwyd o fewn yr amser ymateb targed. Ymatebwyd i'r un achos arall chwe diwrnod ar ôl yr amser ymateb targed. Sylwodd yr archwilywyr fod yr awdurdod wedi pennu amser ymateb heriol, sef un diwrnod gwaith ar gyfer cwynion am fwyd a dau ddiwrnod gwaith ar gyfer cwynion am sefydliadau bwyd. Cysylltwyd â phartion perthnasol eraill ac, mewn 9 o'r 10 achos, cafodd yr achwynydd wybod am ganlyniad yr ymchwiliad. At ei gilydd, roedd cofnodion y cwynion y ddigon manwl.
- 8.6 Mewn naw achos, roedd camau priodol wedi'u cymryd mewn ymateb i'r cwynion, ond yn yr achos arall yn ymwneud â honiad o salwch ar ôl bwyta bwyd, nid oedd tystiolaeth bod ymchwiliadau pellach i'r salwch wedi'u cynnal. Lle'r oedd swyddogion wedi cymryd camau mewn dau achos i ddelio â bwyd wedi dyddio a bwyd y tu hwnt i ofynion

rheolaethau tymheredd, nid oedd gweithredwr y busnes bwyd wedi cael gwybod yn ysgrifenedig am y camau hyn.

Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

- 8.7 Roedd cofnodion manwl o'r 10 cwyn am safonau bwyd a'r pum cwyn am fwyd anifeiliaid wedi'u cadw ar y gronfa ddata o sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid.
- 8.8 Cynhaliwyd ymchwiliadau priodol o fewn yr amser ymateb targed a chafodd camau dilyn i fyny eu cymryd lle y bo'n briodol. Cysylltwyd â phob rhanddeiliad perthnasol a chafodd yr achwynwyr wybod am ganlyniad yr ymchwiliadau.

Argymhellion

- 8.9 Dylai'r awdurdod:
- (i) Ymchwilio i gwynion am hylendid bwyd yn unol â'i weithdrefnau cwyno cofnodedig. [Y Safon – 8.2]

9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref

- 9.1 Roedd ymrwymiad yr awdurdod i Gynllun y Prif Awdurdod ac yr Egwyddor Awdurdod Cartref wedi'i amlinellu yn y Cynllun Gwasanaeth.
- 9.2 Roedd swyddogion wedi cael hyfforddiant ar faterion Prif Awdurdod ac wedi cael cyfrineiriau fel y gallent fynd at gronfeydd data ar-lein y Prif Awdurdod a'r Awdurdod Cartref.
- 9.3 Dywedodd y Cynllun Gwasanaeth bod yr awdurdod yn gweithredu fel Awdurdod Cartref i 15 busnes bwyd ac un busnes bwyd anifeiliaid yn ei ardal. Ystyriwyd bod y busnesau hyn yn rhai uchel eu blaenoriaeth a rhoddwyd ymrwymiad i ymweld â nhw yn flynyddol o leiaf.
- 9.4 Ar adeg yr archwiliad, nid oedd yr awdurdod yn gweithredu fel Prif Awdurdod ac nid oedd wedi derbyn unrhyw geisiadau i wneud hynny.
- 9.5 Roedd y cofnodion yr edrychwyd arnynt yn ystod yr archwiliad yn dangos bod yr awdurdod yn gweithredu Egwyddor yr Awdurdod Cartref, a'i fod wedi ymateb i geisiadau am wybodaeth gan fusnesau ac awdurdodau eraill. Roedd cofnodion manwl o waith yr Awdurdod Cartref wedi'u cadw ar gronfeydd data sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid.
- 9.6 Roedd ystyriaethau'r Prif Awdurdod a'r Awdurdod Cartref wedi'u cynnwys ym Mholisi Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd ac yn y gweithdrefnau cofnodedig perthnasol. Yn ystod yr archwiliad, roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod gorfodi, yn rhoi ystyriaeth i faterion Prif Awdurdod.

10 Cyngor i Fusnes

10.1 Dangosodd yr awdurdod ei ymrwymiad i gynorthwyo busnesau lleol i gydymffurfio â'r gyfraith trwy gyflwyno nifer o fentrau, a oedd yn cynnwys:

- Rhoi cyngor i gigyddion ar atal croeshalogi
- Hyfforddi busnesau i'w cynorthwyo i wella'u systemau rheoli diogelwch bwyd gyda chymorth cyllid gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Cyflwyno cyfres o sesiynau galw heibio ar draws y sir i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
- Mynychu digwyddiadau wedi'u hanelu at ofalwyr plant i ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch bwyd, gan gynnwys darparu pecynnau Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell

10.2 Roedd yr awdurdod wedi rhoi cyngor i fusnesau ar hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid ar gais. Roedd cofnodion manwl wedi'u cadw ar y gronfa ddata.

10.3 Roedd tanysgrifio i TS Broadcast yn sicrhau bod gwybodaeth a chyngor cynhwysfawr ar safonau bwyd ar gael i fusnesau ar wefan yr awdurdod.

10.4 Roedd yr awdurdod wedi datblygu amrywiaeth o daflenni canllaw a oedd ar gael ar ei wefan i gynorthwyo busnesau i gydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd, gan gynnwys:

- Nodiadau Canllaw ar Ddadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP)
- Cyfarwyddyd Diogelwch Bwyd ar gyfer Masnachwyr Marchnadoedd Ffermwyr
- Gofynion Safonol ar gyfer Stondinau a Cherbydau sy'n Gwerthu Bwyd
- Rhedeg Mân Fusnes Bwyd o'ch Cartref
- Rheoli a Monitro Tymheredd Bwyd
- Goruchwyliaeth a Hyfforddiant ar Hylendid Bwyd
- Cynhyrchu a Gweini Rhew yn Ddiogel
- Dechrau Busnes Bwyd
- Y Cynllunio Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol

- 10.5 Roedd cyngor ar fwyd anifeiliaid a deddfwriaeth bwyd anifeiliaid ar gael i fusnesau trwy ddolen ar wefan yr awdurdod i wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- 10.6 Roedd cyngor technegol ar faterion safonau bwyd wedi'i roi i fusnesau yr oedd yr awdurdod yn gweithredu fel Awdurdod Cartref ar eu cyfer.
- 10.7 Roedd tystiolaeth bod cyngor yn cael ei roi i fusnesau yn ystod arolygiadau yn ogystal ag ar gais.

- 11 **Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**
- 11.1 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn gofnodedig yn amlinellu sut yr oedd yn sicrhau bod ei gronfa ddata electronig o sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid yn gyfredol ac yn gywir, a sut yr oedd yn lleihau'r risg o lygru neu golli gwybodaeth cymaint â phosibl.
- 11.2 Roedd gweinyddwyr systemau yn gyfrifol am sicrhau bod y gronfa ddata yn gweithredu'n gywir a bod mynediad i'r gronfa ddata wedi'i gyfyngu i staff awdurdodedig. Roedd staff cymorth busnes dynodedig yn gyfrifol am gofnodi data yn gywir ac yn amserol ac am ddiwygio gwybodaeth ar y gronfa ddata.
- 11.3 Roedd pob swyddog yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gamgymeriadau, hepgoriadau neu ddiweddariadau i'r gronfa ddata'n cael eu dwyn i sylw staff priodol.
- 11.4 Roedd cywirdeb y gronfa ddata yn dibynnu ar swyddogion yn cael gwybodaeth gyfredol yn ystod arolygiadau, gwybodaeth wedi'i darparu gan fusnesau ar ffurflenni cofrestru a gwybodaeth gyffredinol e.e. o'r tudalennau melyn, y we a thrwy fonitro ceisiadau cynllunio.
- 11.5 Dewisodd yr archwilwyr bum busnes bwyd ar hap o'r we, bob un ohonynt wedi'u lleoli yn ardal yr awdurdod. Roedd pob un ohonynt ar gronfa ddata sefydliadau hylendid bwyd yr awdurdod ac wedi'u cynnwys yn y rhaglen ymyriadau wedi'u cynllunio.
- 11.6 Roedd y pum busnes hyn wedi'u cynnwys yn y gronfa ddata safonau bwyd; fodd bynnag, nid oedd tri ohonynt wedi bod yn destun arolygiadau sgorio risg.
- 11.7 Hefyd, cafodd pedwar sefydliad bwyd anifeiliaid yn ardal yr awdurdod eu dewis ar hap o'r we. Roedd tri o'r rhain wedi'u cynnwys yn y gronfa ddata safonau bwyd anifeiliaid ac wedi'u cofrestru. Nid oedd fu'r un o'r sefydliadau wedi bod yn destun arolygiad sgorio risg, ac roedd un ohonynt wedi'i gofrestru'n weithgynhyrchwr bwyd anifeiliaid.

Argymhelliad

11.8 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod ei gronfa ddata o sefydliadau bwyd anifeiliaid yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol, gan fod cywirdeb cronfeydd data o'r fath yn ganolog i ddarparu a monitro gwasanaethau. [Y Safon – 11.1]

12 Arolygu a Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

- 12.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth 2013/14 yr awdurdod yn amcangyfrif y byddai 155 o samplau safonau bwyd 20 o samplau bwyd anifeiliaid yn cael eu cymryd i'w dadansoddi yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, rhagwelwyd y byddai tua 270 o samplau'n cael eu cymryd at ddiben archwilio microbiolegol.
- 12.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Samplu Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid cofnodedig a oedd yn datgan y byddent yn sicrhau samplau bwyd a bwyd anifeiliaid seiliedig ar risg i'w harchwilio a'u dadansoddi, yn unol â gofynion yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru. Roedd hefyd yn amlinellu'r amgylchiadau pan fyddai samplau'n cael eu cymryd, gan gynnwys samplu yn ystod arolygiadau wedi'u cynllunio o sefydliadau bwyd. Byddai'r polisi yn elwa o gynnwys manylion y trefniadau ar gyfer samplu'r tu allan i oriau swyddfa.
- 12.3 Roedd y polisi'n rhoi manylion yr archwilwyr a dadansoddwyr bwyd a benodwyd gan yr awdurdod, ac roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol wedi'u penodi'n ffurfiol gan yr awdurdod. Darparwyd manylion y labordai achrededig hefyd.
- 12.4 Roedd protocolau a gweithdrefnau samplu bwyd wedi'u datblygu ar gyfer hylendid bwyd. Roedd y rhain yn cynnwys canllawiau i swyddogion ar y camau i'w cymryd pe byddent yn derbyn canlyniadau anfoddhaol, dulliau trin a thrafod samplau i'w hatal rhag dirywio a sicrhau parhad y dystiolaeth, ystyriaethau'r Prif Awdurdod/Awdurdod Cartref a chofnodi samplau ar gronfa ddata'r awdurdod.
- 12.5 Darparwyd canllawiau ar y gweithdrefnau ar gyfer swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn Llawlyfr Gorfodi'r Weithdrefn Arolygu Safonau Bwyd.
- 12.6 Datblygwyd rhaglenni samplu ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â pholisi samplu'r awdurdod ac roedd y rhain yn cael eu gweithredu. Roedd y rhaglen samplu hylendid bwyd yn cynnwys cymryd rhan yn Arolwg Basged Siopa Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru.

- 12.7 Roedd yr awdurdod wedi derbyn cyllid gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer samplu safonau bwyd.

Hylendid Bwyd

- 12.8 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â 10 o samplau bwyd a gyflwynwyd ar gyfer dadansoddiad microbiolegol. Ym mhob achos, roedd swyddogion awdurdodedig priodol wedi caffael y samplau ac roedd canlyniadau'r samplu ar gael ar ffeil y sefydliad bwyd.
- 12.9 Yn ddiethriad, roedd gweithredwyr busnesau bwyd wedi cael gwybod am ganlyniadau anfoddhaol a chafodd camau dilynol priodol eu cymryd.
- 12.10 Sylwodd archwilwyr y bu oedi wrth gymryd camau dilynol ynghylch dau sampl anfoddhaol a gafwyd ar yr un pryd o sefydliad bwyd. Cymerwyd camau dilynol 10 niwrnod ar ôl yr amser ymateb targed yng ngweithdrefn yr awdurdod. Nid oedd y samplau anfoddhaol hyn yn ymwneud â bacteria a oedd yn arwyddocaol i iechyd y cyhoedd.

Safonau Bwyd

- 12.11 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â 10 sampl anfoddhaol yn gysylltiedig â safonau bwyd. Roedd pob sampl wedi'i gymryd gan swyddog a hyfforddwyd yn briodol ac roedd canlyniadau'r samplu ar gael ym mhob achos.
- 12.12 Sylwodd archwilwyr fod ymchwiliadau'n parhau mewn tri achos ac, ym mhump o'r saith achos arall, nid oedd camau dilynol priodol wedi'u cymryd. Roedd y pum achos yn ymwneud â chanlyniadau samplu anfoddhaol, pedwar ohonynt yn ymwneud â chanfod alergenau heb eu datgan na chafodd y gweithredwyr busnesau bwyd perthnasol wybod amdanynt. Roedd yr achos arall yn ymwneud â cham-ddisgrifio cynnyrch.

Bwyd Anifeiliaid

- 12.13 Cafodd cofnodion yn ymwneud ag wyth sampl bwyd anifeiliaid eu harchwilio ac roedd chwech o'r rhain yn anfoddhaol. Roedd pob un o'r

samplau wedi'u cymryd gan swyddog a hyfforddwyd yn briodol, ac roedd canlyniadau'r samplu ar gael ym mhob achos.

12.14 At ei gilydd, roedd camau dilynol priodol wedi'u cymryd ond mewn dau achos, nid oedd tystiolaeth bod camau wedi'u cymryd i ymchwilio i'r canlyniadau anfoddhaol. Roedd gweithredwyr busnesau bwyd wedi cael gwybod am y canlyniadau anfoddhaol mewn pedwar o'r chwe achos.

Argymhellion

12.15 Dylai'r awdurdod:

- (i) Samplu safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â'i bolisi a'i weithdrefnau samplu cofnodedig; yn benodol, sicrhau bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd pan nad ystyrir bod canlyniadau yn foddhaol. [Y Safon – 12.6]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

- 13.1 Roedd yr awdurdod wedi enwi prif swyddog clefydau trosglwyddadwy a oedd wedi mynychu digwyddiadau fel rhan o Raglen Hyfforddi Prif Swyddogion Cymru.
- 13.2 Roedd Cynllun Rheoli Achosion Cymru, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol, wedi'i gymeradwyo i'w fabwysiadu gan yr awdurdod.
- 13.3 Roedd yr awdurdod wedi cynhyrchu protocolau a gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau a gludir gan fwyd, gydag ystod o daflenni cyngor a holiaduron yn eu hategu. Roedd y gweithdrefnau'n cyfeirio at ymchwilio i fwydydd dan amheuaeth a safleoedd bwyd ymhlyg.
- 13.4 Nid oedd y protocolau a gweithdrefnau ymchwilio yn darparu gwybodaeth am ymateb i hysbysiadau am glefydau a gludir gan fwyd, a fyddai'n cyrraedd y tu allan i oriau swyddfa. Fodd bynnag, cadarnhaodd Arweinydd Proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd (Masnachol) bod trefniadau ewyllys da ar waith ac roedd tystiolaeth bod yr awdurdod wedi ymateb yn effeithiol i'r hysbysiad o achosion a amheuwyd a ddaeth i law y tu allan i oriau swyddfa drwy'r 'Llinell Ofal' 24 awr.
- 13.5 Roedd cofnodion yn ymwneud ag ymchwiliad i achosion diweddar yn gysylltiedig â busnes bwyd cofrestredig yn ardal yr awdurdod wedi'u harchwilio. Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod ymweliad wedi'i gynnal â'r sefydliad ymhlyg ac y cysylltwyd â'r asiantaethau priodol. Roedd holiadur pwrpasol wedi'i ddatblygu i gynorthwyo swyddogion i gael gwybodaeth o achosion. Roedd swyddogion wedi ateb yr holl holiaduron yn llawn.
- 13.6 Dewiswyd hysbysiadau yn ymwneud â 10 achos achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd ar gyfer yr archwiliad, ac edrychwyd ar gofnodion naw achos. Roedd awdurdod cyfagos wedi ymchwilio i'r achos arall cyn cadarnhau bod yr achos yn gysylltiedig ag un o drigolion Powys.

- 13.7 Yn y naw achos, roedd archwilwyr yn gallu gwirio o'r cofnodion a oedd ar gael bod ymchwiliadau trylwyr wedi'u cynnal gan swyddogion cymwys a bod camau priodol wedi'u cymryd.

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

- 14.1 Roedd Gweithdrefn Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd gofnodedig gan yr awdurdod. Roedd y weithdrefn yn amlinellu sut roedd yr awdurdod yn ymateb i Ddigwyddiadau Bwyd, Rhybuddion Bwyd – Angen Gweithredu, Hysbysiadau Gwybodaeth am Dynnu Cynnyrch yn Ôl a Hysbysiadau Gwybodaeth am Alw Cynnyrch yn Ôl, gan gynnwys y rhai sy'n cyrraedd y tu allan o oriau swyddfa arferol. Nid oedd digwyddiadau/rhybuddion bwyd anifeiliaid wedi'u cynnwys yn y weithdrefn.
- 14.2 Roedd gan yr awdurdod system gyfrifiadurol a oedd yn gallu derbyn rhybuddion bwyd a bwyd anifeiliaid, ac roedd y weithdrefn yn datgan *'y dylai camau a gymerir mewn ymateb i Rybuddion – Angen Gweithredu gael eu cofnodi fel bod modd eu hadalw ar gyfer camau dilynol posibl neu archwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd'*.
- 14.3 Roedd y weithdrefn yn datgan mai Arweinydd Proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd (Masnachol) a'r Rheolwr Safonau Masnach, ar y cyd ag Uwch Swyddogion, oedd yn gyfrifol am ei gweithredu'n effeithiol, ac roedd hyn yn cynnwys trefniadau'r awdurdod ar gyfer rhybuddio'r Asiantaeth Safonau Bwyd pe byddai perygl bwyd gwirioneddol neu bosibl yn cael ei amlygu'n lleol.
- 14.4 Edrychodd yr archwilwyr ar gofnodion mewn perthynas â phum Rhybudd Bwyd – Angen Gweithredu a roddwyd yn ystod y tair blynedd flaenorol. Derbyniwyd pob un ohonynt ac ymatebwyd iddynt yn unol â chynghor yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd yr awdurdod wedi gallu dangos bod Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Swyddogion Safonau Masnach wedi cydweithio'n effeithiol mewn achosion priodol.
- 14.5 Roedd manylion y camau a gymerwyd gan yr awdurdod, gan gynnwys negeseuon e-bost swyddogion a gohebiaeth arall, wedi'u cadw ar ffeil ac roedd modd eu hadalw.
- 14.6 Cadarnhaodd gwiriadau a wnaed cyn yr archwiliad fod yr awdurdod wedi hysbysu'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn effeithiol o ddigwyddiadau lleol difrifol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Argymhelliad

14.7 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer cychwyn ac ymateb i ddigwyddiadau bwyd anifeiliaid a rhybuddion bwyd anifeiliaid yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon – 14.1 a 14.4]

15 Gorfodi

- 15.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Gorfodi – Diogelu'r Cyhoedd a gymeradwywyd gan yr Aelod Etholedig perthnasol yn 2012 ac a oedd ar gael i'r cyhoedd ac i fusnesau ar ei wefan. Roedd amrywiaeth o weithdrefnau gorfodi cofnodedig wedi'u datblygu a'u gweithredu hefyd, gan gynnwys Gweithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Droseddau, Adrodd Arnynt a'u Prosesu.
- 15.2 Nodwyd nad oedd y Polisi Gorfodi wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau strwythurol yn yr awdurdod yn 2013. Trafododd archwilwyr fanteision cynnwys gwybodaeth fanylach am yr amgylchiadau pan y byddai gwahanol opsiynau gorfodi yn cael eu hystyried er mwyn mynd i'r afael ag enghreifftiau o fynd yn groes i safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, mewn fersiynau diwygiedig o'r polisi yn y dyfodol. Roedd yr wybodaeth hon ar gael mewn dogfennau gweithdrefnau ar gyfer troseddau hylendid bwyd.
- 15.3 Dangosodd yr awdurdod ymrwymiad i ddefnyddio'r ystod lawn o gosbau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth hylendid bwyd.
- 15.4 Archwiliwyd cofnodion 10 Hysbysiad Gwella Hylendid. Dyma oedd y ffordd briodol o weithredu ym mhob achos ac fe'u llofnodwyd gan swyddogion awdurdodedig cywir a fu'n dyst i'r tramgwyddau. Yn gyffredinol, roedd yr hysbysiadau wedi'u drafftio'n briodol yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, roedd terfynau amser priodol ar gyfer gwaith unioni wedi'u pennu ac roedd tystiolaeth o'u cyflwyno ar gael mewn saith achos. Ym mhob achos priodol, roedd llythyron wedi'u hafon at y gweithredwyr busnesau bwyd yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r hysbysiadau.
- 15.5 Roedd camau dilynol priodol wedi'u cymryd yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mewn tri achos o ddiffyg cydymffurfio â Hysbysiadau Gwella Hylendid, nid oedd yr awdurdod wedi cofnodi'r rhesymau dros beidio â chychwyn camau gorfodi pellach. Mewn dau o'r achosion hyn lle rhoddwyd amser ychwanegol i'r gweithredwyr busnesau bwyd gydymffurfio, ni ddilynwyd y weithdrefn ymestyn hysbysiad sydd wedi'i chynnwys yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd. Yn yr achos arall, amlygwyd diffyg cydymffurfiaeth â'r hysbysiad yn yr arolygiad nesaf wedi'i gynllunio a chyflwynwyd Hysbysiad Gwella Hylendid arall. Ar adeg

yr archwiliad, nid oedd tystiolaeth o wirio y cydymffurfiwyd â'r hysbysiad gwreiddiol na bod yr awdurdod wedi ystyried codi lefel y gorfodi.

- 15.6 Mewn un achos lle'r oedd Hysbysiad Camau Unioni wedi'i gyflwyno, dyma oedd y ffordd briodol o weithredu. Rhoddodd yr archwilwyr wybod y dylai manylion penodol y tor deddfwriaeth fod wedi cael eu darparu, ynghyd â chyfeiriad y Llys Ynadon Lleol. Roedd gwiriadau gan swyddogion yn cadarnhau na chydymffurfiwyd â'r hysbysiad a pharatowyd ffeil achos erlyn i adran gyfreithiol yr awdurdod ei ystyried. Yn sgil cyngor cyfreithiol, ni aeth yr achos yn ei flaen. Cwblhawyd y gwaith gofynnol ar ôl hynny, a chafodd gweithredwr y busnes bwyd wybod yn ysgrifenedig fod yr Hysbysiad Camau Unioni wedi'i dynnu yn ôl.
- 15.7 Archwiliwyd cofnodion 10 o sefydliadau bwyd a oedd wedi cytuno i gau'n wirfoddol. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau ym mhob achos mai hon oedd y ffordd briodol o weithredu ac roedd tystiolaeth fod y gweithredwr busnes bwyd wedi cael cadarnhad ysgrifenedig priodol o'r cam cau'n wirfoddol. Mewn chwe achos, roedd tystiolaeth bod y sefydliadau bwyd wedi cael eu monitro ar ôl cau i gadarnhau eu bod yn cadw at y trefniadau, yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, yn y pedwar achos arall, nid oedd tystiolaeth bod swyddogion wedi cynnal gwiriadau mewn sefydliadau tra'r oeddent wedi cau'n wirfoddol.
- 15.8 Roedd yr holl drefniadau cau'n wirfoddol wedi'u codi'n briodol. Sylwodd archwilwyr bod ymweliad cyhoeddedig i benderfynu a ellid codi'r cytundeb cau yn cyd-fynd ag arolygiad wedi'i gynllunio mewn un achos. Nodwyd bod y busnes wedi cael sgôr risg ddiwygiedig yn dilyn yr ymweliad cyhoeddedig hwn.
- 15.9 Cyn yr archwiliad, roedd yr awdurdod wedi datgan bod bwyd wedi'i ildio'n wirfoddol ar 55 achlysur yn ystod y tair blynedd flaenorol. Dewiswyd cofnodion yn ymwneud â 10 achos i'w harchwilio. Fodd bynnag, darganfuwyd bod un ohonynt wedi cael y cod anghywir, gan nad oedd y bwyd yn yr enghraifft hon wedi'i ildio i swyddog o'r awdurdod i'w ddinistrio, ond ei fod wedi'i waredu gan y gweithredwr busnes bwyd.
- 15.10 Yn y naw achos lle'r oedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod bwydydd wedi'u hildio'n wirfoddol, roedd y rheswm dros y camau a gymerwyd yn

dangos yn ddieithriad mai dyma'r ffordd briodol o weithredu. Roedd y swyddog a'r sawl a oedd yn ildio'r bwyd wedi llofnodi'r ffurflenni ildio bwyd yn wirfoddol, gan ddatgan yn glir y math o fwyd a ildiwyd i'w waredu a faint ohono gafodd ei ildio. Fodd bynnag, mewn tri achos, nid oedd cofnod o sut y cafodd y bwyd ei anffurfio i'w atal rhag ailymuno â'r gadwyn fwyd ddynol a/neu ei ddinistrio wedi hynny.

- 15.11 Cafodd cofnodion yn ymwneud â phedwar achos lle y daliwyd gafael ar fwyd yn ffurfiol gan yr awdurdod ac un achos lle y cafodd bwyd ei atafaelu'n ffurfiol eu gwirio yn erbyn canllawiau swyddogol, Polisi Gorfodi'r awdurdod a gweithdrefnau cofnodedig. Roedd fformat yr hysbysiadau a gyflwynwyd yn gyson â'r templed a geir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ac roedd y wybodaeth a roddwyd yn hawdd ei deall ac yn gywir. Ym mhob achos, roedd y rheswm dros ddal gafael ar fwyd ac atafaelu bwyd yn dangos bod yr awdurdod wedi gweithredu yn y ffordd briodol.
- 15.12 Yn y ddau achos lle cafodd yr Hysbysiadau Dal Gafael eu tynnu'n hôl, hon oedd y ffordd briodol o weithredu. Yn un o'r achosion hyn, sylwodd archwilwyr fod ardystiad Rheoliad 27 wedi'i gyflwyno ar yr un pryd. Roedd hyn yn amhriodol o dan yr amgylchiadau, gan nad oedd ymchwiliadau i bennu a oedd y bwyd wedi methu cydymffurfio â'r rheoliadau hylendid wedi dod i ben.
- 15.13 Roedd archwiliad o'r cofnod yn ymwneud ag atafaelu'n ffurfiol wedi cadarnhau bod cadarnhad ysgrifenedig wedi'i roi i'r gweithredwr busnes bwyd yn dilyn atafaelu, a bod cais llwyddiannus wedi'i gyflwyno i Ynad am Orchymyn Condemnio. Hefyd, roedd tystiolaeth i gadarnhau sut y cafodd y bwyd ei waredu i'w atal rhag ailymuno â'r gadwyn fwyd.
- 15.14 Roedd Gweithdrefn yr awdurdod ar gyfer Ymchwilio i Droseddau, Adrodd Arnynt a'u Prosesu yn arbennig o gynhwysfawr ac yn cynnwys gwybodaeth a ffurflenni manwl i gynorthwyo swyddogion i baratoi ffeiliau achos ar gyfer erlyniadau/Rhybuddion Syml. Sylwodd archwilwyr fod angen diweddarau'r weithdrefn i adlewyrchu newidiadau strwythurol o fewn y gwasanaeth.
- 15.15 Archwiliwyd cofnodion pum Rhybudd Syml, dau ohonynt yn ymwneud â throeddau hylendid bwyd, dau ohonynt yn ymwneud â throeddau safonau bwyd ac un yn drosedd o dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd anifeiliaid. O fwrw golwg arnynt, gwelwyd bod y Rhybudd Syml yn

ymwneud â hylendid bwyd anifeiliaid yn rhybudd ysgrifenedig â chod anghywir yn y gronfa ddata.

- 15.16 Yn gyffredinol, Rhybuddion Syml oedd y ffordd briodol o weithredu, roedd ffeiliau wedi'u paratoi yn unol â gweithdrefn gofnodedig yr awdurdod ac roedd tystiolaeth o fonitro mewnol.
- 15.17 Yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad, roedd swyddogion wedi paratoi pedwar ffeil achos yn argymhell erlyn. Ym mhob achos, roedd y ffeiliau erlyn yn cynnwys gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys datganiadau tystion, trawsgrifiadau o gyfweiliadau a recordiwyd ar dâp, ffotograffau, ac 'adroddiadau cychwynnol' i'r rheolwr llinell.
- 15.18 Yn y pedwar achos, roedd tystiolaeth bod swyddogion wedi dilyn gweithdrefnau'r awdurdod ar gyfer erlyn ac wedi ystyried ei Bolisi Gorfodi.

Argymhellion

- 15.19 Dylai'r awdurdod:
- (i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei Bolisi Gorfodi cofnodedig, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol eraill. [Y Safon – 15.1]
 - (ii) Sicrhau bod gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.2 a 15.3]
 - (iii) Sicrhau bod pob penderfyniad ynghylch camau gorfodi'n cael eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod a bod y rhesymau dros wyro o gwbl o'r meini prawf a amlinellir yn y polisi yn cael eu cofnodi. [Y Safon – 15.4]

16 Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygiadau

Hylendid Bwyd

- 16.1 Roedd yr awdurdod yn cadw cofnodion busnes bwyd, gan gynnwys dogfennau cofrestru a chymeradwyo, ffurflenni arolygu/cymorth cof a gohebiaeth, ar ffurf copi caled mewn ffeiliau safle. Roedd manylion dyddiad yr ymyrraeth a'r math o ymyrraeth a oedd yn gysylltiedig â busnesau bwyd, yn ogystal â phroffil risg y safle, yn cael eu cadw ar gronfa ddata electronig yr awdurdod hefyd. Sylwodd yr archwilyr fod copïau caled o'r cofnodion yn cael eu cadw ar ffeil, mewn trefn gronolegol a, lle y bo'n berthnasol, roedd modd adalw gwybodaeth yn ymwneud â'r tair ymyrraeth ddiwethaf. Roedd cofnodion yn cael eu cadw am chwe blynedd.
- 16.2 Roedd swyddogion yn defnyddio llythyrau adroddiad arolygu i gyfleu canfyddiadau arolygiad i weithredwyr busnesau bwyd, a oedd yn gwahaniaethu'n eglur rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da. Hefyd, roedd y llythyron hyn yn cynnwys manylion y camau unioni a'r graddfeydd amser a oedd yn ofynnol ar gyfer cydymffurfio, ynghyd ag amlinellu unrhyw gamau dilynol pellach gan yr awdurdod.
- 16.3 Yn gyffredinol, roedd y cofnodion ar y ffeiliau safle a'r gronfa ddata electronig yn gywir. Roedd ffurflenni cofrestru ar gael ar gyfer pob un ond un o'r busnesau bwyd a ddewiswyd ar gyfer yr archwiliad. Lle nad oedd ffurflen gofrestru ar gael, roedd yr hanes yn y ffeil yn dangos bod y busnes wedi bod ar waith er 1992. Mewn achos arall, sylwodd archwilyr nad oedd manylion y gweithredwr busnes bwyd ar y ffurflen gofrestru yn cyfateb i'r manylion yn yr ohebiaeth a'r cofnodion arolygu diweddaraf.
- 16.4 O wirio yn ystod yr archwiliad, cadarnhawyd bod ffurflenni arolygu/cymhorthion cof a gohebiaeth yn cynnwys manylion y gweithredwr busnes bwyd, dyddiadau arolygu, y math o fusnes, y ddeddfwriaeth a oedd yn berthnasol i'r arolygiad, y meysydd a archwiliwyd, enw a dynodiad y swyddog arolygu, y dogfennau a archwiliwyd, a gymerwyd samplau, cyfeiriad yr awdurdod a manylion cyswllt uwch swyddog rhag ofn y byddai anghydfod.

16.5 Ym mhob achos a archwiliwyd, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod llythyron wedi'u hafon i fusnesau o fewn 14 wedi'r arolygiad, yn unol â gofynion gweithdrefnau'r awdurdod.

Safonau Bwyd

16.6 Roedd ffurflenni arolygu safonau bwyd, a oedd hefyd yn adroddiad o ymweliad, ar gael ar gyfer yr arolygiadau diweddaraf a wnaed yn y saith sefydliad bwyd a ystyriwyd yn ystod yr archwiliad. Roedd yr wybodaeth a gofnodwyd ar y ffurflenni hyn yn ddarllenadwy.

16.7 Roedd enw'r swyddog arolygu, cyfeiriad yr awdurdod lleol, amser a dyddiad yr arolygiad, a phwyntiau trafod allweddol wedi'u cynnwys ar ffurflenni'r adroddiad o ymweliad, ac roedd pob un ohonynt wedi'u llofnodi gan y swyddog arolygu. Fodd bynnag, nid oedd yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Adran 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd wedi'i darparu'n gyson ar y ffurflenni. Sef, yn benodol, enw'r gweithredwr busnes bwyd, y math o fusnes, y dogfennau a archwiliwyd, y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r arolygiad, dynodiad y swyddog arolygu neu fanylion cyswllt uwch swyddog rhag ofn y byddai anghydfod.

16.8 Ym mhob achos heblaw dau, roedd swyddogion wedi gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion ar ffurflenni'r adroddiad o ymweliad. Yn gyffredinol, roedd y camau i'w cymryd gan yr awdurdod bwyd yn dilyn arolygiadau wedi'u cofnodi. Fodd bynnag, yn y tri achos lle y canfuwyd diffyg cydymffurfio ac yr oedd angen camau dilynol, ni ddarparwyd graddfeydd amser ar gyfer cydymffurfio.

16.9 Roedd anghysondebau yn y wybodaeth yn ymwneud ag ymyriadau ar gronfa ddata'r awdurdod. Sefydlodd archwilwyr mai'r rhesymau dros hyn oedd y defnydd o wahanol gynlluniau sgorio, problem trosglwyddo meddalwedd hysbys, a dull anghyson o sganio cofnodion arolygu.

16.10 Roedd yr awdurdod yn gallu dangos bod cofnodion safonau bwyd yn cael eu cadw am chwe blynedd.

Argymhelliad

16.11 Dylai'r awdurdod:

- (i) Gynnal cofnodion ac adroddiadau digonol ar ymyriadau safonau bwyd ar gyfer pob safle bwyd perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 16.1]

Bwyd Anifeiliaid

- 16.12 Roedd adroddiadau arolygu ar gael ar gyfer tri o'r 10 sefydliad bwyd anifeiliaid a ddewiswyd i'w harchwilio. Fodd bynnag, ym mhob achos, roedd adroddiadau arolygu ar gael ar gyfer yr arolygiad diweddaraf yn unig.
- 16.13 Roedd yr adroddiadau a oedd ar gael yn cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Ymhlith yr wybodaeth na chafodd ei chynnwys mewn adroddiadau oedd y ddeddfwriaeth benodol a oedd yn berthnasol i'r arolygiadau, y meysydd busnes a arolygwyd, y dogfennau a archwiliwyd, manylion cyswllt a dynodiad y swyddog arolygu a manylion uwch swyddog rhag ofn y byddai anghydfod. Hefyd, nid oedd pwyntiau trafod allweddol gyda gweithredwyr busnesau bwyd wedi'u cofnodi mewn dau o'r tri adroddiad ac nid oedd un o'r adroddiadau wedi gwahaniaethu'n eglur rhwng cofnodion cyfreithiol ac argymhellion arfer da.
- 16.14 Oherwydd absenoldeb cofnodion heblaw'r rhai a oedd yn ymwneud â'r arolygiad diweddaraf, nid oedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod wedi mabwysiadu dull graddoledig o orfodi.

Argymhelliad

- 16.15 Dylai'r awdurdod:
- (i) Gynnal cofnodion cyfredol a chywir mewn ffurf y gellir ei hadalw ar yr holl sefydliadau bwyd anifeiliaid perthnasol a bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion camau a gymerwyd. [Y Safon – 16.1]

(ii) Sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau ymyriadau/arolygiadau bwyd anifeiliaid yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 16.2]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

- 17.1 Roedd gan yr awdurdod bolisi a gweithdrefn gwyno gorfforaethol gyda cham datrys anffurfiol a gweithdrefn ffurfiol dau gam. Roedd y polisi a'r weithdrefn gwyno wedi'u cyhoeddi ar wefan yr awdurdod.
- 17.2 Ni chafwyd unrhyw gwynion am wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd na bwyd anifeiliaid yr awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Fodd bynnag, roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod trefniadau effeithiol ar waith yng Ngwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd i ymateb i gwynion am y gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid, ac adrodd ar ganlyniadau ymchwiliadau i'r rhain.
- 17.3 O ran hylendid bwyd, sylwodd archwilwyr fod manylion cyswllt uwch swyddog yn cael eu darparu ar ohebiaeth pe byddai busnesau'n dymuno cwyno yn dilyn arolygiad neu ymyrraeth arall. Cafodd y gofyniad i gynnwys y wybodaeth hon ar ohebiaeth yn dilyn ymyriadau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid ei drafod gyda swyddogion.

18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt ag awdurdodau cyfagos a chyrrff priodol eraill gyda'r nod o hwyluso gorfodi cyson. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cymryd rhan weithgar yn y canlynol:

- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru;
- Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru;
- Penaethiaid Safonau Masnach Cymru;
- Grŵp Cyswllt Cyfarwyddwyr Canolbarth a Gorllewin Cymru;
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd Cymru;
- Grŵp Gorchwyl Diogelwch Bwyd De-orllewin Cymru;
- Panel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy;
- Grŵp Gorchwyl Clefydau Trosglwyddadwy De-orllewin Cymru;
- Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru;
- Grŵp Bwyd ac Amaeth Cymru;
- Grŵp Cyswllt Safonau Bwyd ac Amaethyddol De-orllewin Cymru;
- Grŵp Rhanbarthol Penaethiaid Safonau Masnach Cymru ar Fwyd Anifeiliaid.

18.2 Roedd cofnodion ar gael o gyfarfodydd grwpiau cyswllt ac roeddent yn cadarnhau bod cynrychiolwyr priodol o'r gwasanaeth yn bresennol ynddynt yn rheolaidd. Roedd yr awdurdod yn gallu dangos bod ganddo drefniadau cyswllt gweithgar ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

18.3 Bu'r awdurdod yn rhan o ddatblygu hyfforddiant cysondeb ar gymhwyso'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a'i gyflwyno'n effeithiol i swyddogion awdurdodau lleol ar draws Cymru.

18.4 Roedd trefniadau cyswllt wedi'u sefydlu ag adrannau mewnol eraill ac roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol iawn yn rhoi cyngor i'w hadran gwasanaethau arlwyo ar gaffael bwydydd risg uchel.

19 Monitro Mewnol

Hylendid Bwyd

- 19.1 Roedd gweithdrefn monitro mewnol gynhwysfawr wedi'u datblygu ar gyfer hylendid bwyd, yn ymgorffori agweddau meintiol ac ansoddol o ddarparu gwasanaeth. Hefyd, roedd cyfeiriadau at fonitro perthnasol i'w gweld mewn gweithdrefnau a gofnodwyd yn unigol. Roedd y gweithdrefnau'n galluogi'r awdurdod i gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safon yn y Cytundeb Fframwaith, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun.
- 19.2 Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod monitro mewnol a wnaed gan Arweinydd Proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd (Masnachol) ac Uwch Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn gyson â gweithdrefnau cofnodedig.
- 19.3 Roedd tystiolaeth bod swyddogion wedi cael adborth rheolaidd mewn cyfarfodydd adolygu ar ansawdd eu gwaith a bod camau cywirol wedi'u cofnodi lle yr amlygwyd problemau.
- 19.4 Roedd yr awdurdod wedi mynd ati i sicrhau bod ei swyddogion a swyddogion eraill ar draws Cymru yn mabwysiadu dull cyson o gymhwyso'r sgoriau risg o dan Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, trwy hwyluso ymarferion cysondeb.
- 19.5 Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cynorthwyo i sicrhau bod swyddogion yn gweithio mewn modd cyson ac roeddent yn rhoi cyfle i reolwyr adrodd ar gynnydd wrth ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r targedau yn y Cynllun Gwasanaeth.
- 19.6 Roedd cofnodion monitro mewnol yn cael eu cynnal am ddwy flynedd yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

- 19.7 Yng Ngweithdrefn Ymweliadau Gorfodi Safonau Masnach, roedd yr awdurdod yn cyfeirio at fonitro mewnol meintiol ac ansoddol gan reolwyr llinell. Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod rhywfaint o waith

monitro mewnol meintiol weithgareddau gorfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i gynnal. Fodd bynnag, fe'i cyfyngwyd i fonitro cynnydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad lefel uchel yn y Cynllun Gwasanaeth. Nid oedd monitro mewnol ansoddol wedi'i gynnal.

Argymhellion

19.8 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer darparu gwasanaethau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, yn unol ag Erthygl 8 Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 (Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd), y Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 19.1]
- (ii) Cadarnhau ei gydymffurfiaeth â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun yn ymwneud â darparu gwasanaethau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 19.2]
- (iii) Sicrhau bod cofnodion monitro yn ymwneud â safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu creu a'u cadw am o leiaf ddwy flynedd. [Y Safon – 19.3]

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid

- 20.1 Nid oedd y gwasanaeth wedi bod yn destun unrhyw adolygiadau gan gymheiriaid nac archwiliadau gan drydydd parti yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.
- 20.2 Roedd archwiliad penodol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd o *Reolaethau Swyddogol Awdurdodau Lleol a Rheolaethau Gweithredwyr Busnesau Bwyd mewn Sefydliadau Cymeradwy*, wedi'i gynnal yn 2010 ac roedd materion a amlygodd yr awdurdod ar gyfer gweithredu wedi'u cwblhau.
- 20.3 Yn 2010, cynhaliwyd Adolygiad Craffu, sef *Arolygiad o Safleoedd Bwyd Risg Uchel*, a wnaeth gydnabod y pwysau ar y gwasanaeth a gwnaeth nifer o argymhellion sydd wedi'u rhoi ar waith ers hynny. Cyflwynwyd adroddiad pellach i Bwyllgor Craffu – Pobl yr awdurdod ym mis Mehefin 2013 yn rhoi trosolwg o weithgareddau lechyd yr Amgylchedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â hylendid bwyd a rheoli clefydau heintus. Fel rhan o'r broses hon, aeth aelodau'r Pwyllgor Craffu gyda swyddogion i arolygiadau hylendid bwyd mewn sefydliadau bwyd.

21 Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

- 21.1 Roedd yr awdurdod wedi cynnal nifer o fentrau gyda'r nod o hybu safonau a diogelwch bwyd.
- 21.2 O ran diogelwch bwyd, roedd yr awdurdod wedi cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau hyrwyddo, gan gynnwys:
- Hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol;
 - Hyrwyddo hylendid dwylo da mewn ysgolion lleol;
 - Cymryd rhan yn yr Wythnos Diogelwch Bwyd;
 - Darparu cyflwyniadau i Aelodau Etholedig ar faterion diogelwch bwyd, gan gynnwys argymhellion yr Athro Pennington, materion presennol yn ymwneud â diogelwch bwyd, a gwenwyn bwyd;
 - Cyhoeddi datganiadau i'r wasg e.e. Diogelwch Bwyd dros y Nadolig, Defnyddio Bwyd Dros Ben, Diogelwch Bwyd mewn Barbeciw
- 21.3 Roedd gwefan yr awdurdod yn cynnwys 'Gair i Gall ar Ddiogelwch Bwyd' yn y cartref a chyngor ynghylch gwenwyn bwyd.
- 21.4 Roedd swyddogion hylendid bwyd a safonau bwyd wedi mynychu digwyddiad ar arallgyfeirio ffermydd a chafodd y bobl yno gyngor ar gynlluniau arallgyfeirio yn ymwneud â chynhyrchu bwyd.
- 21.5 Rhoddwyd cyngor i'r cyhoedd ar y peryglon sydd ynghlwm wrth yfed alcohol ffug mewn datganiadau i'r wasg ac ar wefan yr awdurdod.
- 21.6 Roedd cofnodion hybu safonau a diogelwch bwyd yn cael eu cynnal gan swyddogion.
- 21.7 Nid oedd bwyd anifeiliaid wedi bod yn destun unrhyw weithgareddau hyrwyddo.

Argymhelliad

- 21.8 Dylai'r awdurdod:
- (i) Ddatblygu gweithgareddau hyrwyddo i gynnwys diogelwch bwyd anifeiliaid. [Y Safon - 21.1]

Archwilwyr:

Prif Archwilydd:

Archwilwyr:

Kate Thompson

Alun Barnes

Craig Sewell

Daniel Morelli

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru

11eg Llawr

Tŷ Southgate

Wood Street

Caerdydd

CF10 1EW

**Cynllun Gweithredu Cyngor Sir Powys
Dyddiad yr archwiliad: 25-29 Tachwedd 2013**

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
3.18 Dylai'r Awdurdod:			
(i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid darparu nifer yr ymyriadau sydd wedi'u cynllunio, gan gynnwys ymyriadau amgen, amcangyfrif o nifer yr arolygiadau o fusnesau newydd a'r ailymweliadau y bydd eu hangen i fodloni gofynion Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. At hynny, dylid darparu gwybodaeth fanylach am gostau darparu gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid. Dylid cynnwys dadansoddiad trylwyr o'r adnoddau y mae eu hangen o gymharu â'r rhai sydd ar gael, a chynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a amlygir. [Y Safon – 3.1]	31/03/2015	Yn y dyfodol, bydd Cynlluniau Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid blynyddol yn cael eu llunio'n unol â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Cynhelir adolygiad o'r holl wariant i roi'r gwasanaeth ar waith, a rhoddir dadansoddiad o'r costau mewn Cynlluniau Cyflwyno Gwasanaeth, yn unol â gofynion y Canllaw Cynllunio Gwasanaeth.	Mae Cynllun 2015/16 yn cael ei lunio mewn modd sy'n adlewyrchu'r gofynion a'r adnoddau sydd ar gael.
(ii) O ran safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, cynnal adolygiad cofnodedig o'i	31/12/2015	Cynhelir adolygiad perfformiad blynyddol cynhwysfawr cofnodedig o'r	Cytunwyd â'r ASB yng Nghymru i dargedu adnoddau

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
berfformiad yn seiliedig ar y Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn, i'w gymeradwyo gan y fforwm aelodau perthnasol neu'r uwch swyddog dynodedig. Os caiff unrhyw amrywiadau eu hamlygu, dylid mynd i'r afael â rhain yng Nghynllun Gwasanaeth dilynol yr awdurdod. [Y Safon – 3.2 a 3.3]		gwasanaethau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid ar sail y Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth a chynlluniau adrannol perthnasol eraill. Cyflwynir yr adolygiad i'r fforwm aelodau perthnasol*, i'r Deiliad Portffolio dynodedig* neu i'r uwch swyddog dynodedig er mwyn craffu arno. Pennir mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau.	at y meysydd lle mae'r angen mwyaf. Cytunwyd ar ddull rhanbarthol o orfodi'r rheolaethau ar fwyd anifeiliaid a darparwyd arian i'r holl awdurdodau lleol.
<p>4.6 Dylai'r Awdurdod:</p> <p>(i) Sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau cofnodedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. [Y Safon – 4.1]</p> <p>(ii) Ymestyn ei system rheoli dogfennau i gynnwys gweithgareddau gorfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 4.2]</p>	<p>31/03/2016</p> <p>30/06/2015</p>	<p>Caiff yr holl bolisiau a gweithdrefnau cofnodedig eu hadolygu bob blwyddyn a phan fydd y ddeddfwriaeth neu'r canllawiau perthnasol yn newid. Caiff system ei rhoi ar waith i fesur cynnydd yn erbyn y broses adolygu.</p> <p>Caiff y system rheoli dogfennau a ddefnyddir ar gyfer hylendid bwyd ei defnyddio ar gyfer gweithdrefnau a pholisiau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, a chaiff y trefniadau hyn eu cofnodi.</p>	
<p>5.15 Dylai'r Awdurdod:</p> <p>(i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei weithdrefn ar gyfer awdurdodi swyddogion safonau bwyd a bwyd</p>	30/06/2015	Caiff y drefn awdurdodi ei hadolygu a'i diwygio i sicrhau bod meini prawf priodol yn cael eu defnyddio i asesu	

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
<p>anifeiliaid i sicrhau bod y meini prawf ar gyfer pennu cymwyseddau swyddogion a'i ddull o awdurdodi swyddogion newydd a'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith wedi'u cynnwys. [Y Safon – 5.1]</p>		<p>cymhwysedd y swyddogion. Bydd y dull a ddefnyddir i asesu cymhwysedd y swyddogion yn debyg i'r dull a nodir yn y weithdrefn hylendid bwyd*. Pan fydd y weithdrefn wedi'i chwblhau, gwneir trefniadau i sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith yn llwyr.</p>	
<p>(ii) Penodi nifer ddigonol o swyddogion awdurdodedig i gynnal rheolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol yn unol â gofynion y Cytundeb Fframwaith a'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon – 5.3]</p>	<p>31/07/2015</p>	<p>Bydd yr awdurdod yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu model cyflawni rhanbarthol arfaethedig Cymru ar gyfer y gyfraith bwyd anifeiliaid a, lle bo'n briodol, bydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i benodi swyddogion i gyflawni ymyriadau yn unol â'r cynigion.</p>	<p>Mae Powys wedi cytuno i weithredu fel Arweinydd Rhanbarthol o fewn y drefn ranbarthol newydd. Mae adnoddau'n cael eu darparu i gyflawni'r rhaglen waith.</p>
<p>(iii) Sicrhau bod pob swyddog bwyd anifeiliaid awdurdodedig yn cael yr hyfforddiant sy'n ofynnol i fod yn gymwys i gyflawni'r gwaith y bydd yn ymwneud ag ef, yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon – 5.4]</p>	<p>31/12/2015</p>	<p>Bydd unrhyw swyddog sydd wedi'i awdurdodi i gyflawni gwaith bwyd anifeiliaid ym Mhowys yn y dyfodol wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i sicrhau ei fod yn gymwys yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Bydd yr hyfforddiant yn briodol ar gyfer lefel y gwaith y mae'n ei gyflawni.</p>	<p>Mae'r ASB yng Nghymru'n llunio rhaglen hyfforddi ar gyfer yr holl awdurdodau.</p>
<p>6.11 Dylai'r awdurdod:</p> <p>(i) Sicrhau bod y terfynau goddefiant</p>	<p>Wedi'i</p>		<p>Ar ôl yr archwiliad safle*,</p>

MATERION I FYND I'R AFAEL A NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
<p>derbyniol a amlinellir yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd yn cael eu dilyn wrth gynnal gwiriadau graddnodi ar thermomedrau a bod unrhyw offer sydd dros y lefel goddefiant yn cael eu symud o wasanaeth. [Y Safon – 6.2]</p> <p>(ii) Sicrhau bod systemau ar waith i atal colli data ar sgoriau risg safonau bwyd o'i gronfa ddata. [Y Safon – 6.4]</p>	<p>gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>		<p>aethpwyd ati ar unwaith i ddiwygio'r goddefiant ar y ffurflen a ddefnyddir i gofnodi gwiriadau graddnodi yn y gogledd. Rydym bellach yn defnyddio'r goddefiant priodol pan fyddwn yn cyflawni gwiriadau ac rydym yn rhoi'r gorau i ddefnyddio unrhyw offer sy'n ddiffygiol.</p> <p>Collwyd data sgoriau risg safonau bwyd pan symudodd yr awdurdod o'r system LACORS at gynlluniau asesu risg y Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol (NTSB). Mae'r gwaith hwnnw wedi'i gwblhau erbyn hyn*. Pan fyddwn yn asesu risg sefydliadau, caiff eu proffiliau sgoriau risg llawn eu bwydo i'r gronfa ddata a'u cadw ynddi. Gwneir copi wrth gefn o'r wybodaeth hon.</p>
<p>7.19 Dylai'r awdurdod:</p> <p>(i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon –</p>	<p>31/03/2016</p>	<p>Caiff pob sefydliad y mae'n bryd cyflawni ymyrraeth hylendid bwyd ynddo ei gynnwys yn rhaglen ymyriadau'r flwyddyn i ddod. Byddwn</p>	

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
7.1]		yn cyflawni gwaith monitro rheolaidd i asesu'r cynnydd yn erbyn y rhaglen. Bydd unrhyw ddiffygion o ran cyflawni'r rhaglen yn cael eu nodi yn yr adolygiad blynyddol o berfformiad yr awdurdod.	
(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2]	31/03/2016	Anelu at sicrhau bod ymyriadau / arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cyflawni yn unol â'r gofynion perthnasol, ac, yn benodol, sicrhau bod ymyriadau'n cael eu cyflawni o fewn 28 diwrnod at y dyddiad gofynnol. Atgoffa'r swyddogion o'r gofynion yn ystod arfarniadau, adolygiadau perfformiad a chyfarfodydd tîm, a mynd ati'n rheolaidd i fonitro'r ymyriadau'n fewnol i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion.	
(iii) Sicrhau bod arsylwadau a wneir wrth gynnal arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal colli gwybodaeth berthnasol. [Y Safon – 7.5]	31/07/2015	Mynd ati mewn cyfarfodydd tîm, arfarniadau ac adolygiadau perfformiad i bwysleisio'r gofyniad am i swyddogion gadw cofnodion digon manwl o'u harsylwadau yn ystod arolygiadau ac ymyriadau hylendid bwyd, a mynd ati'n rheolaidd i fonitro'r cofnodion yn fewnol i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion.	

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
7.35 Dylai'r awdurdod:			
(i) Sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynllunio a'u cynnal ar amllder nad yw'n llai na hwnnw a bennir o dan y cynllun sgorio ymyrraeth a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]	31/03/2016	Caiff arolygiadau a gynlluniwyd mewn sefydliadau safonau bwyd uchel eu risg eu cyflawni ar yr amllder sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Bydd yr awdurdod yn pwyso a mesur opsiynau i gyflawni ymyriadau safonau bwyd mewn sefydliadau canolog ac isel eu risg yn y dyfodol yn unol â dyraniadau'r gyllideb yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys defnyddio strategaethau gorfodi amgen. Law yn llaw â'r ASB yng Nghymru, caiff gwaith ei wneud i bennu sut y mae'r IOM yn cydweddu â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Bydd yr awdurdod yn rhoi sylw i unrhyw newidiadau i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd o ran ymyriadau safonau bwyd a gynlluniwyd. Bydd yn cyflawni gwaith monitro mewnol i gadarnhau pa mor aml y mae'r ymyriadau'n cael eu cyflawni.	
(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau o sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Yn benodol, sicrhau bod y strategaethau orfodi amgen a'r cynllun	31/03/2016	Bydd yr awdurdod yn sicrhau bod y sgoriau risg a roddir i sefydliadau ar ôl cyflawni ymyriadau safonau bwyd yn adlewyrchu'r arsylwadau a wnaed yn ddigonol. Bydd hefyd yn sicrhau nad yw'r ymyriadau a gyflawnir yn o	Rhoddwyd sgôr risg i bob safle bwyd yn unol ag Atodiad V o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
	31/03/2016	72	

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
<p>sgorio risg a ddefnyddir yn gyson â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.2]</p>		<p>unol â chynllun yr NTSB yn digwydd yn llai aml nag a fyddai'n ofynnol dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Gweler 7.35(i) uchod hefyd.</p> <p>Caiff y dull o ddefnyddio'r strategaeth orfodi amgen ar gyfer safonau bwyd ei adolygu a'i ddiwygio'n briodol yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.</p>	
(iii) Aseu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau â'r safonau a ragnodwyd yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3]	31/12/2015	<p>Caiff swyddogion eu briffio ynghylch y gofyniad hwn. Mewn cyfarfodydd tîm, arfarniadau ac adolygiadau perfformiad, cânt eu hatgoffa o'r gofyniad i sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cyflawni'n unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. Byddwn yn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu gwirio fel rhan o'r gwaith monitro mewnol hefyd – gweler 7.35(i) uchod.</p>	
(iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig sy'n amlinellu dull ei strategaeth orfodi amgen ar gyfer safonau bwyd. [Y Safon – 7.4]	31/07/2015	<p>Bydd y dull diwygiedig o ddefnyddio'r strategaeth orfodi amgen ar gyfer safonau bwyd yn cael ei gofnodi a bydd y swyddogion yn cael gwybod amdano i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn effeithiol.</p>	<p><i>Y targed cyfredol ar gyfer busnesau newydd yw 50% – mater sy'n gysylltiedig ag adnoddau.</i></p>

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
(v) Sicrhau bod arsylwadau a wneir a/neu ddata a gesglir yn ystod arolygiad/ymyrraeth yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal colli gwybodaeth berthnasol. [Y Safon – 7.5]	31/07/2015	Mynd ati mewn cyfarfodydd tîm, arfarniadau ac adolygiadau perfformiad i bwysleisio'r gofyniad am i swyddogion gadw cofnodion digon manwl yn ystod arolygiadau ac ymyriadau safonau bwyd, a mynd ati'n rheolaidd i fonitro'r cofnodion yn fewnol i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion.	Defnyddir Ffurflenni Arolygu Safonau Bwyd Cymru Gyfan i nodi'r arsylwadau a wnaed a'r cyngor a roddwyd. Ar ôl ei llenwi, caiff y ffurflen ei hatodi at ffeil y safle yn y gronfa ddata. Rydym wrthi'n monitro'r ffurflenni hyn yn fewnol.
7.50 Dylai'r awdurdod:			
(i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau o sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal ar yr amllder a nodir yn y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon – 7.1]	31/03/2016	Bydd yr awdurdod yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu model cyflawni newydd arfaethedig Cymru ar gyfer y gyfraith bwyd anifeiliaid a, lle bo'n briodol, bydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau bod y rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn cael eu rhoi ar waith ym Mhowys yn unol â rhaglen ymyrraeth Cymru, y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.	Mae Powys wedi cytuno i weithredu fel Arweinydd Rhanbarthol o fewn y drefn ranbarthol newydd. Mae adnoddau'n cael eu darparu i gyflawni'r rhaglen waith.
(ii) Cynnal arolygiadau/ymyriadau a chymeradwyo neu gofrestru sefydliadau bwyd anifeiliaid yn unol â deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]			
(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau bwyd anifeiliaid a systemau â safonau wedi'u rhagnodi'n gyfreithiol, gan gynnwys gofynion labelu bwyd anifeiliaid, a sicrhau bod camau dilynol	31/03/2016	Fel y nodir uchod	Fel y nodir uchod

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
<p>prïodol yn cael eu cymryd yn gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3]</p> <p>(iv) Diwygio'r Weithdrefn Arolygu Bwyd Anifeiliaid gofnodedig i sicrhau ei bod yn adlewyrchu gofynion y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a'i bod yn cynnwys dull yr awdurdod o gynnal ymyriadau mewn busnesau yr ystyrir eu bod yn rhai risg isel. [Y Safon – 7.4]</p> <p>(v) Sicrhau bod cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau'n cael eu storio fel y gellir eu hadalw. [Y Safon – 7.5]</p>	<p>31/03/2016</p> <p>31/03/2016</p>	<p>Fel y nodir uchod</p>	<p>Fel y nodir uchod</p> <p>Mae'r cofnodion bellach yn cael eu hatodi at ffeil y safle yn y gronfa ddata. Bydd hyn yn sicrhau bod modd eu hadalw.</p>
<p>8.9 Dylai'r awdurdod:</p> <p>(i) Ymchwilio i gwynion am hylendid bwyd yn unol â'i weithdrefnau cwyno cofnodedig. [Y Safon – 8.2]</p>	<p>31/07/2015</p>	<p>Mewn cyfarfodydd tîm, arfarniadau ac adolygiadau perfformiad, caiff y swyddogion eu hatgoffa o'r broses i'w dilyn er mwyn ymchwilio i gwynion, fel y'i nodir yng ngweithdrefnau'r awdurdod; a byddwn yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro'r mater yn fewnol i sicrhau cydymffurfiaeth.</p>	
<p>11.8 Dylai'r awdurdod:</p> <p>(i) Sicrhau bod ei gronfa ddata o</p>	<p>31/03/2016</p>	<p>Wrth gyfrannu at y gwaith o ddatblygu</p>	<p>Rhodddwyd sgôr risg i'r</p>

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
sefydliadau bwyd anifeiliaid yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol, gan fod cywirdeb cronfeydd data o'r fath yn ganolog i ddarparu a monitro gwasanaethau. [Y Safon – 11.1]		model cyflawni newydd arfaethedig Cymru ar gyfer y gyfraith bwyd anifeiliaid, bydd yr awdurdod yn cynnig cymorth i sicrhau bod yr wybodaeth am sefydliadau bwyd anifeiliaid Powys yn gywir yn y gronfa ddata.	safleoedd a restrir yn y gronfa ddata o safleoedd bwyd anifeiliaid yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Drwy ymyrryd yn uniongyrchol mewn safleoedd bwyd anifeiliaid LO, bydd modd sicrhau bod cofrestriadau newydd yn cael eu gwirio cyn iddynt gael eu hychwanegu at y Gofrestr.
12.15 Dylai'r awdurdod: (i) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi os na thybir bod canlyniadau samplau bwyd anifeiliaid a safonau bwyd yn foddhaol. [Y Safon – 12.7]	31/07/2015	Mewn cyfarfodydd tîm, arfarniadau ac adolygiadau perfformiad, caiff y swyddogion eu hatgoffa o'r angen i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn sgil canlyniadau anfoddhaol, a hynny yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. Caiff gwaith monitro mewnol ei gyflawni'n rheolaidd i gadarnhau bod y swyddogion yn cydymffurfio â'r gofynion.	Cafodd system fonitro'i llunio a'i rhoi ar waith o ran canlyniadau profion samplu.
14.7 Dylai'r awdurdod: (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer cychwyn ac ymateb i ddigwyddiadau bwyd anifeiliaid a rhybuddion bwyd anifeiliaid yn unol â'r Cod Ymarfer	31/03/2016	Sefydlu gweithdrefn digwyddiadau bwyd anifeiliaid a rhybuddion bwyd anifeiliaid, a rhoi gwybod i'r swyddogion am ei chynnwys i sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith yn	

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon – 14.1 a 14.4]		effeithiol.	
<p>15.19 Dylai'r awdurdod:</p> <p>(i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei Bolisi Gorfodi cofnodedig, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol eraill. [Y Safon – 15.1]</p> <p>(ii) Sicrhau bod gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.2 a 15.3]</p> <p>(iii) Sicrhau bod pob penderfyniad ynghylch camau gorfodi'n cael eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod a bod y rhesymau dros wyro o gwbl o'r meini prawf a amlinellir yn y polisi yn cael eu cofnodi. [Y Safon – 15.4]</p>	<p>31/12/2015</p> <p>31/03/2016</p> <p>Parhaus</p>	<p>Adolygu a diwygio'r Polisi Gorfodi fel y bo'n briodol. Yn benodol, byddwn yn darparu manylion cyfredol am strwythur yr adran. Byddwn yn rhoi gwybod i'r swyddogion am y polisi diwygiedig er mwyn iddynt ei roi ar waith a byddwn yn cyflawni gwaith monitro mewnol yn rheolaidd i gadarnhau cydymffurfiaeth.</p> <p>Caiff y swyddogion eu hatgoffa o ofynion perthnasol y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r awdurdod, a byddwn yn cyflawni gwaith monitro mewnol yn rheolaidd i gadarnhau cydymffurfiaeth.</p> <p>Caiff y swyddogion eu hatgoffa o'r gofyniad i ystyried y polisi pan fyddant yn gwneud penderfyniadau gorfodi. Bydd unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrth y polisi'n anarferol. Fodd bynnag, os bydd rhaid gwyro oddi wrtho, bydd y rhesymau'n cael eu cofnodi yn y dyfodol.</p>	

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
<p>16.11 Dylai'r awdurdod:</p> <p>(i) Cynnal cofnodion ac adroddiadau digonol ar ymyriadau safonau bwyd ar gyfer pob safle bwyd perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 16.1]</p>	31/03/2016	Mewn cyfarfodydd tîm, arfarniadau, goruchwyliadau ac adolygiadau perfformiad, caiff y swyddogion eu hatgoffa o'r gofyniad hwn, a byddwn yn cyflawni gwaith monitro mewnol yn rheolaidd i gadarnhau cydymffurfiaeth.	Rydym wedi mabwysiadu Ffurflenni Arolygu Safonau Bwyd Cymru Gyfan. Mae'r rhain yn darparu cofnodion cywir o'r ymyriadau. Caiff y ffurflenni hyn eu sganio a'u gosod yng nghofnod y safle yn y gronfa ddata.
<p>16.15 Dylai'r awdurdod:</p> <p>(i) Cynnal cofnodion cyfredol a chywir mewn ffurf y gellir ei hadalw ar yr holl sefydliadau bwyd anifeiliaid perthnasol a bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion y camau a gymerwyd. [Y Safon – 16.1]</p> <p>(ii) Sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau ymyriadau/arolygiadau bwyd anifeiliaid yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 16.2]</p>	31/03/2016	Mewn cyfarfodydd tîm, arfarniadau, goruchwyliadau ac adolygiadau perfformiad, caiff y swyddogion eu hatgoffa o'r gofynion hyn, a byddwn yn cyflawni gwaith monitro mewnol yn rheolaidd i gadarnhau cydymffurfiaeth.	Mae'r ASB yng Nghymru wedi llunio ffurflen arolygu yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Mae'r templed hwn yn cael ei ddefnyddio ac mae'n cynnwys adroddiadau am ymyriadau / arolygiadau a phenderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth. Caiff y cofnod hwn ei archwilio / monitro, ei sganio a'i osod yng nghofnod y safle yn y gronfa ddata.

MATERION I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
<p>19.8 Dylai'r awdurdod:</p> <p>(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer darparu gwasanaethau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, yn unol ag Erthygl 8 Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 (Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd), y Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 19.1]</p> <p>(ii) Cadarnhau ei gydymffurfiaeth â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun yn ymwneud â darparu gwasanaethau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 19.2]</p> <p>(iii) Sicrhau bod cofnodion monitro yn ymwneud â safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu creu a'u cadw am o leiaf ddwy flynedd. [Y Safon – 19.3]</p>	<p>31/03/2016</p> <p>31/12/2015</p> <p>31/03/2016</p>	<p>Caiff gweithdrefnau'u datblygu yn unol â'r gofynion perthnasol a'u rhoi ar waith gan y swyddogion / rheolwyr*.</p> <p>Bydd y dull monitro mewnol a amlinellir yn y gweithdrefnau uchod yn cynnwys camau i gadarnhau'r gofynion penodedig.</p> <p>Bydd yr holl swyddogion / rheolwyr perthnasol yn cael eu hatgoffa o'r gofynion i gofnodi gweithgareddau monitro mewnol a'u cadw am ddwy flynedd.</p>	<p>Cafodd gweithdrefnau monitro mewnol eu rhoi ar waith.</p>
<p>21.8 Dylai'r awdurdod:</p> <p>(i) Datblygu gweithgareddau hyrwyddo i gynnwys diogelwch bwyd anifeiliaid.</p>	<p>31/07/2015</p>	<p>Gweler yr ymyriadau arfaethedig wrth ymyl argymhelliad 7.50 (i-v)</p>	

MATERION I FYND I'R AFAEL A NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS Y PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
[Y Safon – 21.1]			

Dull/Methodoleg yr Archwiliad

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio ystod o wahanol fathau o ddulliau a methodoleg, fel a ganlyn:

(1) Archwilio polisiau a gweithdrefnau'r awdurdod lleol

Archwiliwyd y polisiau, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol:

- Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2013/14 Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach Cyngor Sir Powys
- Cynllun Busnes Ebrill 2012-Mawrth 2015 Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Powys
- Adroddiad Pwyllgor Craffu – Pobl Cyngor Sir Powys ar Weithgareddau Iechyd yr Amgylchedd Mehefin 2013
- Adolygiad Gwasanaeth Adfywio a Datblygu 2012/13 Cyngor Sir Powys
- Adolygiad Craffu Cyngor Sir Powys o Arolygiadau o Safleoedd Bwyd Risg Uchel
- Y Weithdrefn ar gyfer Awdurdodi Swyddogion i Orfodi Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid
- Cofnodion Monitro Hyfforddiant 2012 a 2013 Tîm Iechyd yr Amgylchedd (Masnachol)
- Cynlluniau Datblygu/Hyfforddi Swyddogion Diogelu'r Cyhoedd
- Cofnodion/Dyddiaduron Dysgu personol Swyddogion Safonau Masnach
- Polisi/Gweithdrefn Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Powys ar Reoli Dogfennau
- Gweithdrefn Safonau Masnach ar gyfer Glanhau a Glanweithio Offer Samplu
- Rhestr Offer Safonau Bwyd
- Polisi Graddnodi Offer Iechyd yr Amgylchedd
- Llawlyfr Gweithdrefnau rhif 9 Safonau Masnach Cyngor Sir Powys
- Ffurflen Ymweliad/Arolygu a Nodiadau Canllaw Safonau Masnach ar gyfer Llenwi Taflen Ymweliad/Arolygiad
- Ffurflen Arolygu Hylendid Bwyd Powys
- Ffurflen Arolygu Cigyddion Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd

- Ffurflen Arolygu Busnes Bwyd Anifeiliaid – Gweithgynhyrchwr Cofrestredig/neu Weithredwr Busnes Bwyd Anifeiliaid arall yn rhoi rhag-

gymysgeddau ychwanegion Bioproteinau, Bwyd Anifeiliaid Cyfansawdd ar y farchnad

- Gweithdrefn Arolygu Hylendid Bwyd Cyngor Sir Powys
- Protocolau a Gweithdrefnau Cyngor Sir Powys ar Safleoedd Cymeradwy
- Ffurflen Arolygu Hylendid Bwyd – Gweithgynhyrchwyr gan gynnwys Sefydliadau Cymeradwy, Cyngor Sir Powys
- Newyddion Diogelwch Bwyd – Rhifyn 1
- Protocolau a Gweithdrefnau Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Powys ar gyfer Ymateb i Gwynion am Safleoedd a Mynd i'r Afael â Nhw
- Protocolau a Gweithdrefnau Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Powys ar gyfer Cwynion am Fwyd
- Gweithdrefn Safonau Masnach Cyngor Sir Powys ar fynd i'r afael â Chwynion a Cheisiadau am Gyngor
- Rhestr Safonau Masnach Powys o Gwmnïau Awdurdod Cartref
- Gweithdrefn Cywirdeb a Diogelwch Cronfeydd Data Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach Powys
- Cyngor Sir Powys – Llythyr Penodi Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol
- Polisi Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach Cyngor Sir Powys ar Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
- Protocolau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Powys ar Samplu Bwyd
- Llawlyfr Gweithdrefnau rhif 9 Safonau Masnach Cyngor Sir Powys
- Cynllun Samplu Bwyd 2012/13 a 2013/14
- Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy i Gymru
- Protocolau a Gweithdrefnau Cyngor Sir Powys ar gyfer Ymchwilio i Achosion Achlysurol o Glefydau a Gludir gan Fwyd
- Gweithdrefn Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd Diogelu'r Cyhoedd, Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, 15 Hydref 2013
- Polisi Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Powys
- Gweithdrefn Powys ar gyfer Ymchwilio i Droseddau, Adrodd Arnynt a'u Prosesu, Llawlyfr Gweithdrefnau Rhif 6
- Gweithdrefn Hysbysiadau Gwella Hylendid Iechyd yr Amgylchedd Powys, 22 Tachwedd 2013
- Protocolau a Gweithdrefnau Hysbysiadau Gwella Hylendid Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd Powys, 30 Awst 2013

- Protocolau a Gweithdrefnau Iechyd yr Amgylchedd Powys ar gyfer Ildio'n Wirfoddol / Dal Gafael ar Fwyd ac Atafaelu Bwyd
- Protocolau a Gweithdrefnau Iechyd yr Amgylchedd Powys ar gyfer Cau'n Wirfoddol/Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid/Campau Unioni, 18 Awst 2013
- Canllawiau Cyngor Sir Powys i Staff ar Gwynion Corfforaethol, Ymchwilio Unwaith, Ymchwilio'n Dda
- Cofnodion Cyfarfodydd Cyswllt
- Adroddiad Pwyllgor Craffu – Pobl Cyngor Sir Powys ar Waith Safonau Masnach, 27 Mehefin 2013
- Diweddariad i Aelodau'r Cyngor ar Gig Ceffyl mewn Cynhyrchion Cig Eidion
- Cofnodion Tîm Masnachol Iechyd yr Amgylchedd
- Cofnodion Cyfarfod Rheolwyr Safonau Masnach Cyngor Sir Powys
- Gweithdrefnau Monitro Mewnol Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Powys

(2) Adolygu ffeiliau

Adolygwyd nifer o gofnodion yr awdurdod lleol yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys:

- Ffeiliau arolygu sefydliadau bwyd cyffredinol
- Ffeiliau sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cwynion am fwyd a safleoedd bwyd
- Cofnodion gorfodi ffurfiol
- Awdurdodiadau swyddogion, rhestrau gwirio cymhwysedd a chofnodion hyfforddiant
- Cofnodion monitro mewnol
- Cofnodion graddnodi
- Cofnodion digwyddiadau bwyd

(3) Adolygu cofnodion ar gronfeydd data:

Ystyriwyd detholiad o gofnodion ar gronfeydd data yn ystod yr archwiliad er mwyn:

- Adolygu ac asesu pa mor gyflawn yw cofnodion ar gronfeydd data am arolygiadau bwyd/bwyd anifeiliaid, ymchwiliadau i gwynion am fwyd/bwyd anifeiliaid a sefydliadau bwyd/bwyd anifeiliaid, samplau a gymerwyd gan yr

awdurdod, gorfodi ffurfiol a gweithgareddau eraill, ac i gadarnhau cysondeb â chofnodion ffeil

- Asesu pa mor gyflawn a chywir yw cronfeydd data sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid
- Asesu gallu'r system i gynhyrchu adroddiadau ar weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd/bwyd anifeiliaid a'r wybodaeth fonitro sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

(4) Cyfweiliadau â swyddogion

Cynhaliwyd cyfweiliadau â swyddogion er mwyn cael mwy o wybodaeth am sut yr oedd trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli bwyd/bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu a'u cynnal yn ymarferol. Cynhaliwyd cyfweiliadau â'r swyddogion canlynol:

Arweinydd Proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd (Masnachol)

Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd

Swyddog Iechyd yr Amgylchedd

Rheolwr Safonau Masnach

Swyddogion Safonau Masnach, gan gynnwys prif swyddogion ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid

Mae'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod cyfweiliadau â swyddogion yn gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad.

(5) Ymweliadau dilysu ar y safle:

Cynhaliwyd ymweliadau dilysu â phedwar busnes bwyd lleol ac un busnes bwyd anifeiliaid gyda swyddogion. Diben yr ymweliadau hyn oedd dilysu canlyniad yr arolygiadau diwethaf a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Lleol ac asesu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a gweithgareddau gorfodi yn bodloni gofynion deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

Rhestr Termiau

Archwilio awdurdod	Rhyng-	System lle y gallai awdurdodau lleol archwilio eu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn unol â safon ansawdd gytunedig.
Archwiliwr Bwyd		Unigolyn â chymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Awdurdod Cartref		Awdurdod lle y mae canolfan benderfynu berthnasol menter wedi'i lleoli ac sydd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau bwyd y cwmni hwnnw.
Awdurdod Gwreiddiol		Awdurdod y mae busnes yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethau o fewn ei ardal, ac y mae'r awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar ei gyfer o ran ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â'r cynhyrchion hynny.
Awdurdod Unedol		Awdurdod lleol lle y mae'r holl swyddogaethau wedi'u cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
Codau Ymarfer		Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddwyd o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth fwyd.
CPIA		Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliadau ac achosion troseddol.

Cyferth ag Amser Llawr Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan honno o amser swyddog unigol sydd ar gael i gyflawni rôl benodol neu gyfres benodol o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gallai unigolion weithio'n rhan-amser, neu y gallai fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodi bwyd.

Cynllun Gwasanaeth Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n amlinellu ei gynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.

Cytundeb Fframwaith Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys:

- Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd
- Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth
- Cynllun Monitro
- Cynllun Archwilio

Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth Hylendid Bwyd** yn amlinellu disgwyliadau'r Asiantaeth o ran cynllunio a darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.

Mae'r **Cynllun Monitro** yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno ffurflenni i'r Asiantaeth bob tri mis ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.

O dan y **Cynllun Archwilio**, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn unol â'r meini prawf a osodwyd yn y Safon.

Dadansoddwr Cyhoeddus Swyddog sydd â'r cymwysterau rhagnodedig a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i gynnal dadansoddiad cemegol o samplau bwyd.

Fforwm aelodau Fforwm awdurdod lleol lle y mae Aelodau'r Cyngor yn trafod a gwneud penderfyniadau am

wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd.

Ffurflenni OCD		Ffurflenni ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Rheolaeth Swyddogol ar Fwyd.
Gweithiwr Proffesiynol lechyd yr Amgylchedd		Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
HACCP		Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i amlygu pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle y mae'n hollbwysig, o safbwynt diogelwch bwyd, bod y mesur rheoli'n cael ei gynnal yn gywir, gan felly ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel.
Hylendid Bwyd		Y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelwch ac iachusrwydd bwyd.
Hysbysiad Hylendid	Gwella	Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n mynnu bod perchennog busnes bwyd yn cyflawni gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
LAEMS		System electronig yw System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i adrodd ar eu gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.
PACE		Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ymchwiliadau troseddol.
Prif Awdurdod		Awdurdod lleol sydd wedi datblygu partneriaeth â busnes sy'n masnachu ar draws ffiniau awdurdod

lleol ac sy'n rhoi cyngor i'r busnes hwnnw.

Rhybuddion Bwyd/ Bwyd	Perygl Rhybuddion	System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd.
Safle cymeradwy		Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddwyd cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol ym maes masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Safonau bwyd		Y gofynion cyfreithiol sy'n ymdrin ag ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Safonau Masnach		Y gwasanaeth mewn awdurdod lleol sy'n gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill.
Sgôr risg		System sy'n rhoi sgôr i safle bwyd yn ôl risg ac sy'n pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safle hwnnw. Er enghraifft, dylai safle risg uchel o ran hylendid gael ei arolygu o leiaf bob 6 mis.
Swyddog awdurdodedig		Swyddog â chymwysterau addas sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth orfodi deddfwriaeth, er enghraifft.
Swyddog Safonau Masnach		Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a allai orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill.